CBAC DYFARNIAD GALWEDIGAETHOL LEFEL 1/2 MEWN CYNLLUNIO A CHYNNAL A CHADW'R AMGYLCHEDD ADEILEDIG

MANYLEB

I'w haddysgu am tro cyntaf o fis Medi 2014

© WJEC CBAC Cyf.

CRYNODEB O NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen
	Ar gyfer asesu mewnol, cyfeiriwch at ddogfen 'Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau dan reolaeth'.	8
	O 2020 ymlaen mae'n **rhaid** i ymgeiswyr gyflawni **llwyddiant ar lefel 1 o leiaf am bob uned** er mwyn ennill gradd am y cymhwyster.	13
	Egurhad o reolau ailsefyll.	41

© WJEC CBAC Cyf.

Cynnwys

		Tudalen
1.	**Cyflwyniad**	
1.1	**Teitlau a Chodau'r Cymhwyster**	**2**
1.2	**Rhesymeg**	**2**
1.3	**Dysgu Blaenorol a Dilyniant**	**3**
2.	**Strwythur y Cymhwyster**	**4**
3.	**Strwythur yr Uned**	**5**
4.	**Asesu**	
4.1	**Asesiad allanol**	**6**
4.2	**Asesiad mewnol**	**7**
4.3	**Asesiad synoptig**	**10**
4.4	**Safoni**	**11**
4.5	**Hyfforddi Aseswyr Arweiniol**	**11**
5.	**Graddio**	**12**
6.	**Unedau**	**14**
7.	**Gweithdrefnau Cofrestru**	**40**
8.	**Safoni Allanol**	**41**
9.	**Dyfarnu a Chyflwyno Adroddiadau**	**43**
10.	**Mynediad ac Ystyriaeth Arbennig**	**44**
11.	**Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau**	**45**
12.	**Codau Dosbarthu**	**46**
13.	**Y Cwricwlwm Ehangach**	**47**
Atodiadau		
1	**Mapio Sgiliau**	**49**
2	**Mapio i gynnwys y Cwricwlwm o ran Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig**	**51**
3	**Rhestr Termau**	**52**

© WJEC CBAC Cyf.

1 CYFLWYNIAD

1.1 Teitlau a Chodau'r Cymhwyster

CBAC Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 mewn Cynllunio a Chynnal a Chadw'r Amgylchedd Adeiledig.

Rhif y Cymhwyster a restrir ar Y Gofrestr yw: 601/1271/2.

Y Rhif Dynodi Cymwsterau Cymru a restrir ar QiW yw: C00/0598/6.

1.2 Rhesymeg

Mae Dyfarniadau Lefel 1/2 CBAC mewn Cynllunio a Chynnal a Chadw'r Amgylchedd Adeiledig yn cynnig profiad dysgu sy'n rhoi ffocws dysgu i ddisgyblion 14 i 19 oed drwy ddysgu cymhwysol h.y. meithrin a chymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth drwy dasgau pwrpasol a bennir o fewn cyd-destun sector neu bwnc sy'n cynnwys llawer o nodweddion gwaith go iawn.

Mae pob cymhwyster yn cynnwys unedau ar wahân, ond mae'n caniatáu ar gyfer dysgu ac asesu synoptig. Mae gan bob uned ddiben cymhwysol sy'n gweithredu fel ffocws ar gyfer y dysgu a wneir fel rhan o'r uned. Defnyddir y diben cymhwysol i sicrhau bod y dysgu a wneir fel rhan o'r uned yn berthnasol ac yn bwrpasol. Fe'i defnyddir hefyd i ennyn brwdfrydedd y dysgwyr, i ymgysylltu â hwy a'u cymell i astudio cynaliadwyedd a'i gydberthynas â chynllunio a chynnal a chadw'r amgylchedd adeiledig er budd cymunedau. Mae'r diben cymhwysol yn rhoi cyfle i ymgymryd â dysgu dilys sy'n gysylltiedig â gwaith, ond yn ogystal, bydd yn gofyn i'r dysgwyr ystyried sut y mae'r defnydd a wnânt o'r hyn a ddysgir a'r ffordd y caiff ei gymhwyso yn effeithio ar unigolion, cyflogwyr, cymdeithas a'r amgylchedd. Bydd y diben cymhwysol hefyd yn galluogi'r dysgwyr i ddysgu mewn modd sy'n golygu y byddant yn meithrin y canlynol:

- y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer dysgu a datblygu annibynnol
- amrywiaeth o sgiliau cyffredinol a throsglwyddadwy
- y gallu i ddatrys problemau
- sgiliau ymchwilio, datblygu a chyflwyno yn seiliedig ar brosiectau
- y gallu sylfaenol i weithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol eraill, mewn amgylchedd proffesiynol
- y gallu i gymhwyso'r hyn a ddysgir o fewn cyd-destunau galwedigaethol.

Lluniwyd y cymwysterau yn seiliedig ar gysyniad o ddull dysgu 'cynllunio, gwneud, adolygu' lle y bydd y dysgwyr yn cael eu cyflwyno i gyd-destun ar gyfer dysgu, yn adolygu dysgu blaenorol er mwyn cynllunio gweithgareddau ac yn adolygu'r canlyniadau a'r hyn a ddysgwyd. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu llawer o weithgareddau cysylltiedig â gwaith wrth gynllunio a dylunio'r amgylchedd adeiledig a hefyd yn darparu ar gyfer dysgu mewn amrywiaeth o gyd-destunau gan alluogi dysgwyr i gymhwyso ac ehangu eu dysgu. Fel y cyfryw, mae'r cymhwyster yn rhoi gwerthfawrogiad eang i'r dysgwyr o weithio ym maes cynllunio, cynaliadwyedd a dylunio a chynnal a chadw'r amgylchedd adeiledig er budd cymunedau a chyfleoedd ehangach ar gyfer camau dilyniant i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant.

© WJEC CBAC Cyf.

1.3 Dysgu Blaenorol a Dilyniant

Nid oes unrhyw ofyniad penodol o ran dysgu blaenorol yn gysylltiedig â'r fanyleb hon. Cynlluniwyd y cymhwyster i adeiladu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a feithrinwyd yn ystod Cyfnod Allweddol 3, yn arbennig sgiliau sy'n gysylltiedig â llythrennedd, rhifedd, datrys problemau a menter. Cynlluniwyd Dyfarniadau Lefel 1/2 CBAC mewn Cynllunio a Chynnal a Chadw'r Amgylchedd Adeiledig er mwyn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr i ddatblygu o'r hyn a ddysgir yng Nghyfnod Allweddol 4 a TGAU i addysg bellach, cyflogaeth a hyfforddiant.

Gallai cwblhau'r cymhwyster hwn yn llwyddiannus, ynghyd â chymwysterau cyfatebol eraill, megis mathemateg a'r gwyddorau, roi cyfleoedd i'r dysgwr astudio ar gyfer amrywiaeth o gymwysterau gan gynnwys cymwysterau TAG, prentisiaethau, cymwysterau sy'n gysylltiedig â galwedigaethau a chymwysterau galwedigaethol, gan gynnwys y canlynol:

- TAGau mewn Cymdeithaseg ac Astudiaethau Amgylcheddol
- Diplomâu mewn Cynllunio Trefi, Rheoli Gwaith Adeiladu a Chadwraeth
- Prentisiaethau mewn tirfesur a goruchwyliaeth a rheolaeth dechnegol ym maes adeiladu.

Yn yr un modd, mae'r sgiliau a'r ddealltwriaeth a feithrinir, gan gynnwys Sgiliau Hanfodol (Cymru), Sgiliau Gweithredol, Sgiliau Allweddol a Sgiliau Personol, Dysgu a Meddwl (PLTS), yn berthnasol i unrhyw gymhwyster ar Lefel 3, boed yn gymhwyster 'Cyffredinol' neu'n gymhwyster 'Galwedigaethol'.

© WJEC CBAC Cyf.

2 STRWYTHUR Y CYMHWYSTER

2.1 Teitlau Uned Dyfarniadau Lefel 1/2 CBAC mewn Cynllunio a Chynnal a Chadw'r Amgylchedd Adeiledig

CBAC Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 mewn Cynllunio a Chynnal a Chadw'r Amgylchedd Adeiledig			
Rhif yr Uned	**Teitl yr Uned**	**Asesiad**	**ODA**
9831	Ychwanegu gwerth at yr amgylchedd adeiledig	Allanol	30
9832	Cynnal a chadw'r amgylchedd adeiledig	Mewnol	60
9833	Amgylcheddau adeiledig cynaliadwy	Mewnol	30

DS: O ran y cymwysterau i'w dyfarnu **o 2020 ymlaen rhaid i ddysgwyr lwyddo ym mhob uned** i gyflawni'r cymhwyster.

2.2 Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) a Chyfanswm Amser Cymhwyso (CAC)

Dyrannwyd nifer penodol o Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) i bob uned yn y cymhwyster hwn. Dyma nifer yr oriau dysgu dan arweiniad y mae CBAC yn disgwyl i ganolfannau eu darparu i gynorthwyo dysgwyr i gyflawni uned. Mae dysgu dan arweiniad yn golygu gweithgareddau fel dysgu yn yr ystafell ddosbarth, tiwtorialau a dysgu ar-lein, sydd dan oruchwyliaeth uniongyrchol athro, tiwtor neu arolygwr. Mae hefyd yn cynnwys pob math o asesu sy'n digwydd dan arweiniad neu oruchwyliaeth uniongyrchol athro, goruchwyliwr neu arolygwr.

Cyfanswm yr ODA a neilltuwyd i'r cymhwyster hwn yw 120 o oriau.

Yn ogystal â'r ODA, mae CBAC hefyd yn pennu cyfanswm yr oriau disgwyliedig y bydd rhaid i ddysgwyr eu cyflawni er mwyn cwblhau'r cymhwyster: cyfeirir at hyn fel Cyfanswm yr Amser Cymhwyso (CAC). Mae'r gweithgareddau sy'n gallu cyfrannu at Gyfanswm Oriau Cymhwyso yn cynnwys ymchwil annibynnol a heb oruchwyliaeth, gwaith cwrs heb oruchwyliaeth, e-ddysgu ac e-asesu heb oruchwyliaeth a'r holl ddysgu dan arweiniad.

Cyfanswm yr Oriau Cymhwyso a neilltuwyd i'r cymhwyster hwn yw 160 o oriau.

© WJEC CBAC Cyf.

3 STRWYTHUR YR UNED

Teitl yr uned
Mae teitl yr uned yn crynhoi cynnwys yr uned.

Oriau dysgu dan arweiniad (ODA)
Mae oriau dysgu dan arweiniad yn cyfeirio'n benodol at yr oriau hynny lle y bydd tiwtor yn bresennol ac yn cyfrannu at y broses ddysgu. Mewn rhai sefydliadau, cyfeirir at yr elfen hon fel 'amser cyswllt'. Mae'r amser hwn yn cynnwys darlithoedd, cyfnodau ymarferol o dan oruchwyliaeth ac amser astudio o dan oruchwyliaeth.

Nod a diben
Mae'r nod a'r diben yn darparu crynodeb cryno a chlir o'r uned. Mae hefyd yn nodi'r diben cymhwysol ar gyfer yr uned.

Cyflwyniad i'r uned
Caiff hwn ei ysgrifennu i'r dysgwr ac mae'n rhoi crynodeb o gynnwys yr uned. Mae'n pennu cyd-destun galwedigaethol yr uned ac yn tynnu sylw at ddiben yr hyn a ddysgir yn yr uned.

Deilliannau dysgu
Mae deilliannau dysgu yn datgan beth y dylai'r dysgwr ei wybod, ei ddeall neu allu ei wneud o ganlyniad i gwblhau'r dysgu yn yr uned

Meini prawf asesu
Mae'r meini prawf asesu yn dynodi'r safon y disgwylir i ddysgwr ei chyrraedd er mwyn dangos bod deilliannau dysgu'r uned honno wedi'u cyflawni.

Cynnwys yr uned
Mae'r cynnwys dangosol yn diffinio ehangder a dyfnder y dysgu ar gyfer pob maen prawf asesu. Disgwylir i'r holl gynnwys dangosol gael ei gyflwyno yn ystod y rhaglen ddysgu. Nid yw'n ofynnol asesu pob agwedd ar y cynnwys wrth asesu'r uned. Disgwylir i ddysgwyr gymhwyso'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a feithrinwyd drwy'r dysgu at fanylion penodol y cyd-destun asesu.

O fewn rhai deilliannau dysgu, rhoddir cynnwys yr uned fel enghraifft (e.e.). Dim ond er mwyn rhoi enghraifft o'r cynnwys y gwneir hyn a gall dysgwyr ddefnyddio unrhyw enghreifftiau a gaiff eu haddysgu iddynt yn eu hasesiadau cyfunol.

Bandiau perfformiad
Darperir y rhain mewn unedau a gaiff eu hasesu'n fewnol. Fe'u defnyddir i bennu'r radd gyfunol ar gyfer yr uned. **Nid** yw bandiau perfformiad yn ychwanegu gofynion ychwanegol at y meini prawf asesu. Defnyddir bandiau perfformiad i bennu'r radd ar gyfer uned.

Asesu
Caiff Dyfarniadau Lefel 1/2 CBAC mewn Cynllunio a Chynnal a Chadw'r Amgylchedd Adeiledig eu hasesu drwy asesiad mewnol dan reolaeth neu asesiad allanol. Mae'r adran hon o'r uned yn crynhoi'r gofynion asesu.

Canllawiau cyflwyno
Rhydd y canllawiau hyn syniadau i'r tiwtor ynghylch sut i gyflwyno'r unedau a gaiff eu hasesu'n fewnol mewn lleoliad galwedigaethol sy'n gyson ag athroniaeth y cymhwyster a bwriad yr uned. Darperir o leiaf dri chyd-destun enghreifftiol ar gyfer pob uned. Mae'r canllawiau hefyd yn rhoi syniadau am leoliadau galwedigaethol ar gyfer yr uned ac yn awgrymu cysylltiadau posibl y gellid eu gwneud wrth gyflwyno'r dysgu.

© WJEC CBAC Cyf.

4 ASESU

Caiff Dyfarniadau Lefel 1/2 CBAC mewn Cynllunio a Chynnal a Chadw'r Amgylchedd Adeiledig eu hasesu gan ddefnyddio cyfuniad o asesiadau mewnol ac allanol.

4.1 Asesiad allanol

Caiff *Uned 1: Ychwanegu gwerth at yr amgylchedd adeiledig* ei hasesu'n allanol. Nodir manylion yr asesiad allanol isod:

- mae CBAC yn darparu aseiniad penodedig bob blwyddyn academaidd
- cynhelir y broses asesu o fewn tair wythnos o 1af Mai
- asesiad 6 awr o hyd wedi'i amseru a'i oruchwylio
- gellir cynnal yr asesiad mewn blociau amser i'w pennu gan y ganolfan
- dylid cadw gwaith ymgeiswyr yn ddiogel rhwng sesiynau
- rhaid cofnodi pob sesiwn
- rhaid goruchwylio **pob** sesiwn
- bydd pob asesiad yn cwmpasu'r holl ddeilliannau dysgu ar gyfer yr uned
- bydd pob asesiad allanol yn gofyn i'r ymgeisydd ddwyn y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddysgwyd ganddynt drwy gydol yr uned ynghyd a chreu cysylltiadau rhyngddynt a'u cymhwyso drwy ymateb i un neu fwy o'r canlynol:
  - Ysgogiad neu fater
  - Briff dylunio neu broblem
- bydd CBAC yn llunio cynllun marcio a ddefnyddir fel sail ar gyfer marcio'r asesiad allanol
- cânt eu graddio gan ddefnyddio Llwyddiant Lefel 1, Llwyddiant Lefel 2, Teilyngdod Lefel 2 a Rhagoriaeth Lefel 2. Dyfernir graddau ar sail bodloni'r disgrifiadau perfformiad a nodir yng nghynllun marcio'r asesiad
- rhaid dogfennu'r broses o oruchwylio ac amseru unedau a gaiff eu hasesu'n allanol yn llawn yn unol â gofynion CBAC.

© WJEC CBAC Cyf.

4.2 Asesiad mewnol

Caiff yr unedau canlynol eu hasesu'n fewnol:

- *Uned 2: Cynnal a chadw'r amgylchedd adeiledig*
- *Uned 3: Amgylcheddau adeiledig cynaliadwy*

Ar gyfer asesu mewnol, cyfeiriwch at ddogfen 'Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau dan reolaeth' CBAC. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan CBAC (www.cbac.co.uk). Mae'n rhaid i bob canolfan sicrhau bod asesiadau mewnol yn cael eu cynnal yn unol â'r rheolaethau hyn.

Mae'r egwyddorion canlynol yn berthnasol wrth asesu pob uned a gaiff ei hasesu'n fewnol:

- Caiff unedau eu hasesu drwy asesiadau cyfunol dan reolaeth
- Darperir rheolaethau ar gyfer asesu pob uned a gaiff ei hasesu'n fewnol mewn aseiniad enghreifftiol
- Mae'n rhaid i bob uned a gaiff ei hasesu'n fewnol gael ei hasesu'n annibynnol. Gall y dysgwyr gyflwyno darn o dystiolaeth sy'n cyfrannu at y meini prawf asesu ar gyfer mwy nag un uned. Mae hyn yn dderbyniol, ar yr amod y gellir ei phriodoli'n glir i faen prawf asesu penodedig a'i bod wedi'i chynhyrchu dan reolaeth briodol ar gyfer pob uned
- Darperir bandiau perfformiad ar gyfer Llwyddiant Lefel 1, Llwyddiant Lefel 2, Teilyngdod Lefel 2 a Rhagoriaeth Lefel 2. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos yn glir sut y mae'r dysgwr wedi cyrraedd y safon ar gyfer y graddau uwch.

Bydd tri cham asesu dan reolaeth:

- Pennu tasgau
- Cyflawni tasgau
- Marcio tasgau.

Pennu tasgau

Ar gyfer asesiadau mewnol, mae CBAC wedi llunio aseiniadau enghreifftiol. Fodd bynnag, gall canolfannau addasu'r aseiniad o fewn paramedrau penodedig. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ganolfannau deilwra'r asesiad at anghenion lleol. Ysgrifennwyd yr aseiniad enghreifftiol er mwyn sicrhau bod y rheolaethau canlynol ar waith:

- Caiff pob uned ei hasesu drwy un aseiniad
- Mae'n rhaid i bob aseiniad gynnwys briff sy'n nodi diben cymhwysol. Mae diben cymhwysol yn rheswm dros gwblhau'r tasgau a fyddai o fudd i gymdeithas, cymuned, sefydliad neu gwmni. Ceir rhagor o fanylion yn y rhesymeg yn Adran 1.2
- Gall yr aseiniad ddynodi nifer o dasgau ond mae'n rhaid i'r tasgau fod yn gydlynus h.y. dangos sut y mae'r holl ofynion asesu yn cyfrannu at gyflawni diben cymhwysol yr aseiniad
- Mae'n rhaid i'r aseiniad roi'r cyfle i bob dysgwr ymdrin â'r holl feini prawf asesu a'r holl ofynion ar gyfer y bandiau perfformiad

© WJEC CBAC Cyf.

- Mae'n rhaid i'r aseiniad nodi'r mathau derbyniol o dystiolaeth. Mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r mathau hynny a nodwyd yn yr aseiniad enghreifftiol
- Lle y bydd canolfan wedi addasu'r aseiniad enghreifftiol, mae'n rhaid darparu tystiolaeth o waith sicrhau ansawdd o ran ei addasrwydd at y diben. Darperir samplau o ddogfennaeth ar gyfer y gweithgaredd hwn gyda phob aseiniad enghreifftiol.

Cyflawni tasgau

Caiff pum maes cyflawni tasgau eu rheoli: amser, adnoddau, goruchwyliaeth, cydweithio ac ailgyflwyno.

Amser
Bydd pob aseiniad enghreifftiol yn dynodi cyfanswm yr amser sydd ar gael ar gyfer yr asesiad cyfunol. Gall canolfannau neilltuo'r amser hwnnw i bob tasg yn ôl eu disgresiwn.

Adnoddau
Gall yr aseswr bennu pa adnoddau y dylid eu darparu i bob dysgwr er mwyn sicrhau y cynhelir asesiad teg a dilys. Lle y mae'n rhaid rhoi rheolaethau penodol ar waith o ran adnoddau, fe'u nodir yn yr aseiniad enghreifftiol.

Goruchwyliaeth
Mae'n rhaid i ddysgwyr gael eu goruchwylio fel arfer gan aseswr wrth gwblhau tasgau aseiniad dan reolaeth. Bydd aseiniadau enghreifftiol yn dynodi lle nad oes angen goruchwyliaeth. Mae'n rhaid i ganolfannau roi systemau ar waith er mwyn sicrhau na all dysgwyr ddefnyddio tystiolaeth y maent wedi bod yn ei datblygu y tu allan i weithgareddau a oruchwylir.

Dilysu
Mae trefniadau goruchwylio ar waith er mwyn sicrhau dilysrwydd y dystiolaeth a gyflwynir ar gyfer asesiad cyfunol. Ni ddisgwylir i aseswyr ddarparu mewnbwn nac arweiniad i ddysgwyr yn ystod cyfnod yr asesiad dan reolaeth. Mae hyn yn cynnwys rhoi adborth ffurfiannol ar y dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno. Gall aseswyr ddarparu canllawiau ar ofynion y dasg ac atgoffa dysgwyr am y bandiau perfformiad a sut y gellir eu dehongli. Mae'n rhaid i aseswyr ymyrryd os gwelir bod risg i Iechyd a Diogelwch.

Gall dysgwyr adolygu ac ailddrafftio tystiolaeth yn annibynnol o fewn terfynau amser yr asesiad.

Mae'n rhaid i ddysgwyr lofnodi datganiad i gadarnhau mai eu gwaith hwy yw'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd i'w chymedroli a bod unrhyw ffynonellau a ddefnyddiwyd wedi'u cydnabod.

Mae'n rhaid i aseswyr lofnodi datganiad i gadarnhau bod y dystiolaeth a gyflwynwyd i'w chymedroli wedi'i chwblhau dan reolaeth fel y nodir yn yr aseiniadau enghreifftiol

Cydweithio
Bydd yr aseiniad enghreifftiol yn nodi'r canlynol:

- p'un a oes rhaid ymgymryd â gwaith grŵp
- p'un a yw gwaith grŵp wedi'i wahardd
- p'un a all canolfannau ddewis cwblhau tasgau drwy waith grŵp.

© WJEC CBAC Cyf.

Lle yr ymgymerir â gwaith grŵp, mae'n rhaid ystyried yr egwyddorion canlynol:

- dylai tasgau roi cyfle i bob aelod o'r grŵp gael mynediad llawn i'r holl fandiau perfformiad ar gyfer yr holl feini prawf asesu
- **rhaid** i ddysgwyr ddarparu ymateb unigol fel rhan o unrhyw ganlyniad sy'n deillio o'r dasg
- gall tystiolaeth o ymatebion unigol gynnwys tystiolaeth ysgrifenedig (e.e. nodiadau, gwerthusiadau, mapiau meddwl ac ati) a/neu dystiolaeth clyweledol (e.e. recordiadau, ffotograffau, lluniau, dyluniadau ac ati);
- rhaid sicrhau y gellir priodoli'r dystiolaeth yn glir i bob aelod unigol o'r grŵp
- mae'n rhaid nodi cyfraniadau unigol yn glir a'u datgan ar y daflen ddilysu ategol y mae'n rhaid i'r athro a'r ymgeisydd ei llofnodi
- mae'n rhaid i'r broses o asesu'r unigolyn fod yn seiliedig ar y cyfraniad unigol i'r dystiolaeth a gyflwynwyd
- ni ddylai perfformiad gwael gan aelodau eraill o'r grŵp effeithio ar gyflawniad dysgwyr
- ni ddylai perfformiad aelodau eraill o'r grŵp fod o fudd i gyflawniad dysgwyr.

Ailsefyll
Gall dysgwyr ailymgeisio am unedau a gaiff eu hasesu'n fewnol. Mae'n rhaid i'r dysgwr gyflwyno asesiad newydd, wedi'i gwblhau o fewn yr un lefelau rheolaeth. Ni allant wella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol.

Caiff dysgwyr un cyfle i ailsefyll pob uned a gaiff ei hasesu.

Lle y bydd dysgwr unigol sydd wedi cyflwyno gwaith grŵp i'w asesu yn flaenorol yn awyddus i ailsefyll uned a gaiff ei hasesu'n fewnol, mae'n **rhaid** dewis un o'r opsiynau canlynol:

- mae'n rhaid i'r ymgeisydd greu darn newydd o waith o fewn yr un grŵp
- mae'n rhaid i'r ymgeisydd greu darn newydd o waith o fewn grŵp newydd
- mae'n rhaid i'r ymgeisydd greu darn newydd o waith gydag ymgeiswyr na chânt eu hasesu
- mae'n rhaid i'r ymgeisydd greu darn unigol o waith.

Bydd yr un lefelau rheolaeth ar gyfer gwaith grŵp, fel y'u hamlinellir uchod, yn berthnasol i ymgeiswyr sy'n dewis ailsefyll.

© WJEC CBAC Cyf.

Marcio tasgau
Mae'n rhaid marcio'r holl dystiolaeth yn erbyn y meini prawf asesu a'r datganiadau bandiau perfformiad a nodir ym manyleb pob uned. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth sy'n cael ei marcio gydymffurfio â'r gofynion dan reolaeth a nodir yn yr aseiniad enghreifftiol.

Mae'n rhaid anodi tystiolaeth ysgrifenedig er mwyn dangos sut y mae'n berthnasol i'r meini prawf asesu a gofynion y bandiau perfformiad.

Mae'n rhaid nodi tystiolaeth o berfformiad, er enghraifft, rhoi cyflwyniad, ar gofnodion arsylwi. Bydd cofnodion arsylwi yn cynnwys disgrifiad o berfformiad y dysgwr yn ogystal â datganiad cyfunol ar ansawdd y perfformiad hwnnw. Lle y bydd rhywun heblaw aseswr yn arsylwi'r perfformiad, mae'n rhaid i'r 'tyst' gwblhau datganiad tyst. Bydd angen i aseswyr ddilysu'r datganiad naill ai drwy graffu ar y dystiolaeth ategol a/neu holi'r dysgwr a/neu'r tyst. Os caiff y datganiad ei ddilysu, gall gyfrannu at y dystiolaeth ar gyfer yr asesiad. Bydd angen cynnwys tystiolaeth ddilysu hefyd. Bydd pob aseiniad enghreifftiol sy'n caniatáu tystiolaeth o berfformiad yn cynnwys sampl o gofnod arsylwi a datganiad tyst.

Dim ond aseswr dynodedig a ddylai farcio tasgau. Dylai fod gan aseswr yr arbenigedd priodol yn y pwnc a'r lefel ar gyfer uned benodol. Mae'r aseswr yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

- cynhelir yr asesiad o dan yr amodau dan reolaeth a nodir
- maent yn deall gofynion y deilliannau dysgu, y meini prawf asesu a'r datganiadau bandiau perfformiad cyn dechrau'r asesiad dan reolaeth
- mae'r dystiolaeth a gyflwynir i'w hasesu yn ddilys
- mae'r penderfyniadau asesu yn cael eu cofnodi'n gywir
- mae'r dystiolaeth yn cael ei hanodi yn briodol
- mae'r cofnodion arsylwi yn cynnwys digon o wybodaeth i sicrhau bod modd cadarnhau penderfyniadau yn wrthrychol
- dim ond yn erbyn y datganiadau bandiau perfformiad y caiff dyfarniadau eu gwneud.

© WJEC CBAC Cyf.

4.3 Asesiad synoptig

Asesiad synoptig yw
'a form of assessment which requires a candidate to demonstrate that s/he can identify and use effectively in an integrated way an appropriate selection of techniques, concepts, theories and knowledge from across the whole vocational area, which are relevant to a key task'

'Qualifications for 14 -16 year olds and Performance Tables: Technical guidance for awarding organisations' Yr Adran Addysg tud 7

Cynlluniwyd pob uned yn Nyfarniadau Lefel 1/2 CBAC mewn Cynllunio a Chynnal a Chadw'r Amgylchedd Adeiledig er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddatblygu eu dysgu drwy weithio tuag at dasgau pwrpasol sy'n gysylltiedig â gwaith. Bydd dysgwyr yn dewis ac yn cymhwyso agweddau ar yr hyn a ddysgwyd ganddynt wrth gwblhau'r tasgau hyn.

Yn ogystal, mae *Uned 1: Ychwanegu gwerth at yr amgylchedd adeiledig* yn rhoi cyfle i'r dysgwyr atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd ganddynt o unedau 2 a 3 mewn gwahanol gyd-destunau er mwyn cynnig atebion i argymell sut y gellid gwella gwerth yr amgylchedd adeiledig.

4.4 Safoni

Disgwylir i ganolfannau safoni penderfyniadau asesu mewnol. Dyma'r broses a ddefnyddir gan ganolfannau er mwyn sicrhau y caiff pob dysgwr ei farnu yn ôl yr un safon ar draws gwahanol aseswyr, grwpiau addysgu ac o flwyddyn i flwyddyn. Dylid cyflwyno tystiolaeth o weithgareddau safoni gyda thystiolaeth y dysgwyr.

Lle y bydd mwy nag un aseswr yn ymwneud â'r broses, rhaid i'r ganolfan benodi Aseswr

Arweiniol. Rôl yr Aseswr Arweiniol yw:

- dogfennu pob gweithgaredd
- sicrhau bod yr aseiniad a gyflwynir i'r dysgwyr yn addas at y diben a'i fod yn cydymffurfio â'r holl reolaethau
- sicrhau bod gan bob aseswr ddogfennaeth briodol i ategu penderfyniadau asesu teg a dilys
- sicrhau bod pob gweithgaredd asesu yn cydymffurfio â'r rheolaethau cyflawni tasgau ar gyfer yr uned
- samplu barnau asesu ar adegau priodol er mwyn sicrhau bod y bandiau perfformiad yn cael eu cymhwyso'n gywir ac yn gyson
- rhoi adborth i'r aseswyr
- rhoi cymorth i'r aseswyr o ran dehongli gofynion bandiau perfformiad.

4.5 Hyfforddi Aseswyr Arweiniol

Bydd CBAC yn rhoi hyfforddiant i Aseswyr Arweiniol ac aseswyr bob blwyddyn academaidd. Bydd deunydd cymorth i aseswyr, gan gynnwys samplau o ddogfennaeth, hefyd ar gael i Aseswyr ac Aseswyr Arweiniol.

© WJEC CBAC Cyf.

5 GRADDIO

Mae cyflawni'r uned yn seiliedig ar allu dysgwr i fodloni'r meini prawf asesu. Gellir dyfarnu gradd gyfunol o Lwyddiant Lefel 1, Llwyddiant Lefel 2, Teilyngdod Lefel 2 neu Ragoriaeth Lefel 2 ar gyfer unedau.

Dyfarnu gradd gyfunol ar gyfer yr uned

Unedau a gaiff eu Hasesu'n Fewnol
Ysgrifennwyd y bandiau perfformiad i alluogi dysgwyr i ddangos eu gallu yn erbyn y meini prawf asesu. Nid oes unrhyw ofynion ychwanegol ar gyfer cyflawni graddau uwch.

Er mwyn cael gradd **Llwyddiant Lefel 1** ar gyfer uned, rhaid i ddysgwr fodloni holl ofynion sylfaenol yr holl feini prawf asesu ar gyfer yr uned, fel y'u nodir ym mand perfformiad Llwyddiant Lefel 1.

Er mwyn cael gradd **Llwyddiant Lefel 2** ar gyfer uned, rhaid i ddysgwr hefyd fodloni holl ofynion sylfaenol Llwyddiant Lefel 2, fel y'u nodir ym mand perfformiad Llwyddiant Lefel 2.

Er mwyn cael gradd **Teilyngdod Lefel 2** ar gyfer uned, rhaid i ddysgwr hefyd fodloni holl ofynion sylfaenol Teilyngdod, fel y'u nodir ym mand perfformiad Teilyngdod.

Er mwyn cael gradd **Rhagoriaeth Lefel 2** ar gyfer uned, rhaid i ddysgwr hefyd fodloni'r holl ofynion sylfaenol fel y'u nodir ym mandiau perfformiad Rhagoriaeth.

Unedau a gaiff eu Hasesu'n Allanol
Caiff pob Deilliant Dysgu ei asesu yn ystod pob cyfle asesu. Caiff y Meini Prawf Asesu eu samplu yn ystod pob cyfres. Caiff disgrifiadau perfformiad eu hysgrifennu ar gyfer pob maen prawf asesu a gaiff ei samplu. Caiff unedau a gaiff eu hasesu'n allanol eu graddio ar yr un sail ag unedau a gaiff eu hasesu'n fewnol.

Graddio'r cymhwyster
Dyfernir gradd Llwyddiant Lefel 1, Llwyddiant Lefel 2, Teilyngdod Lefel 2, Rhagoriaeth Lefel 2 neu Ragoriaeth Lefel 2* i bob Dyfarniad Lefel 1/2 CBAC mewn Cynllunio a Chynnal a Chadw'r Amgylchedd Adeiledig. Dyfernir gradd y cymhwyster ar sail cyfuno'r graddau a gyflawnir ar gyfer yr unedau. Caiff pob gradd a gyflawnir gan ddysgwyr ar gyfer uned ei throsi'n Farc Uned at ddiben dyfarnu'r cymhwyster.

O 2020 ymlaen mae'n **rhaid** i ymgeiswyr gyflawni **llwyddiant ar lefel 1 o leiaf am bob uned** er mwyn ennill gradd am y cymhwyster.

Nodir y pwyntiau sydd ar gael yn y tabl canlynol:

Uned	**Pwyntiau fesul uned**			
	Lefel 1	**Llwyddiant Lefel 2**	**Teilyngdod Lefel 2**	**Rhagoriaeth Lefel 2**
Uned 9831	1	2	3	4
Uned 9832	2	4	6	8
Uned 9833	1	2	3	4

© WJEC CBAC Cyf.

Wedyn caiff gradd y cymhwyster ei chyfrifo drwy gymharu sgôr pwyntiau dysgwyr â'r tabl graddau cymhwyster isod.

Cymhwyster	**Pwyntiau graddio cyffredinol**	
Dyfarniad Lefel 1 CBAC mewn Cynllunio a Chynnal a Chadw'r Amgylchedd Adeiledig	Llwyddiant	4-6
Dyfarniad Lefel 2 CBAC mewn Cynllunio a Chynnal a Chadw'r Amgylchedd Adeiledig	Llwyddiant	7-10
	Teilyngdod	11-13
	Rhagoriaeth	14-15
	Rhagoriaeth*	16

© WJEC CBAC Cyf.

6 UNEDAU

Uned 1 Ychwanegu gwerth at yr amgylchedd adeiledig

Cod cofrestriad uned CBAC: 9831

Oriau dysgu dan arweiniad: 30

Nod a diben
Diben yr uned hon yw i'r dysgwyr argymell sut y gellir gwella gwerth amgylcheddau adeiledig.

Cyflwyniad i'r uned
Beth yw amgylchedd adeiledig? Beth sy'n gwneud i bobl eisiau byw mewn un ardal yn fwy nag un arall? Pam bod strydoedd o dai gwag mewn rhai ardaloedd? Pam bod rhai mathau o fusnesau yn cyd-leoli wrth ymyl ei gilydd? A yw ardal yn fwy deniadol os bydd siopau a gwasanaethau hamdden yno?

P'un a yw'r amgylchedd adeiledig yn cynnwys busnesau, cartrefi, siopau, mannau gwarchodedig neu gyfuniad o ddau neu fwy o'r rhain, mae'n bwysig sicrhau ei fod yn diwallu anghenion ei gymuned leol. Os na fydd yn diwallu'r anghenion hynny, bydd siopau'n cau, daw cartrefi'n wag ac yn adfeiliedig a gall y gymuned ddechrau camddefnyddio'r amgylchedd. Bydd angen gwasanaethau'r diwydiant adeiladu perchenogion tir ac eiddo a sefydliadau rheoli er mwyn cynnal gwerth yr amgylchedd adeiledig i'w rymuned. Gellid gwneud hyn drwy fuddsoddi er mwyn diogelu treftadaeth adeiladau hanesyddol, datblygu cyfleusterau hamdden i'w gymuned eu defnyddio, cynnig taliadau rhent isel i adwerthwyr newydd mewn ardal. Yn ogystal ag ychwanegu at werth ariannol yr amgylchedd adeiledig, mae'r rhain oll yn ychwanegu at iechyd a lles y gymuned.

Drwy'r uned hon, byddwch yn dysgu am amgylchedd adeiledig gwahanol ardaloedd. Byddwch yn dysgu am wahanol fathau o berchenogaeth a sut y defnyddir yr amgylchedd adeiledig gan wahanol fathau o bobl o gymuned leol. Byddwch yn dysgu beth sy'n achosi newid yng ngwerth amgylchedd adeiledig a sut y gellir gwella ei werth. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a feithrinir gennych i argymell ffyrdd i gymuned wella'r amgylchedd adeiledig.

© WJEC CBAC Cyf.

Deilliannau dysgu	**Meini prawf asesu**	**Cynnwys**
Bydd y dysgwr yn:	*Gall y dysgwr:*	
DD1 Gwybod am amgylchedd adeiledig gwahanol ardaloedd	**MPA1.1** Disgrifio'r **amgylchedd adeiledig**	**Amgylchedd adeiledig** • Eiddo masnachol • Tai • Gwagleoedd • Adeiladau • Gwasanaethau

	MPA1.2
	Disgrifio **perchenogaeth** dros yr amgylchedd adeiledig
		Perchenogaeth
		• Tir
		• Adeiladau
		• Rhydd-ddaliad
		• Prydles
		• Landlordiaid
		  ○ Mentrau cymdeithasol
		  ○ Cymdeithasau tai
		  ○ Awdurdod lleol
		  ○ Masnachol
		• Perchenogaeth breifat
		• Perchenogaeth gyhoeddus
		  ○ Y Goron
		  ○ Awdurdod lleol
		  ○ Cyrff y Llywodraeth e.e. Parciau Cenedlaethol

	MPA1.3 Disgrifio sut y defnyddir yr amgylchedd adeiledig gan ei **gymuned**	**Cymuned** • Trigolion • Busnesau • Gweithwyr • Defnyddwyr • Pasio drwodd • Gwahanol oedrannau • Gwahanol anghenion

© WJEC CBAC Ltd.

Deilliannau dysgu	**Meini prawf asesu**	**Cynnwys**
Bydd y dysgwr yn:	*Gall y dysgwr:*	
DD2 Deall sut mae'r amgylchedd adeiledig yn effeithio ar ei werth	**MPA2.1** Egluro sut mae'r amgylchedd adeiledig yn **effeithio** ar ei gymuned	**Effeithiau** • Economaidd • Iechyd • Lles
	MPA2.2 Egluro'r **ffactorau** sy'n arwain at newid yng ngwerth amgylchedd adeiledig	**Ffactorau** • Trosedd • Newid demograffig • Lefelau deiliadaeth • Y gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddarperir • Cynnal a chadw • Ymgysylltu â'r gymuned • Dulliau a deunyddiau adeiladu • Treftadaeth a diwylliant • Gofod • Yr economi leol
	MPA2.3 Egluro sut y caiff gwerth amgylcheddau adeiledig ei wella	**Ffyrdd o wella amgylcheddau adeiledig** • Newid demograffig • Lefelau deiliadaeth • Y gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddarperir • Cynnal a chadw • Ymgysylltu â'r gymuned • Dulliau a deunyddiau adeiladu • Treftadaeth a diwylliant • Gofod • Mentrau cymunedol • Cyfleoedd cyflogaeth • Newid y defnydd o eiddo

© WJEC CBAC Cyf.

Deilliannau dysgu	**Meini prawf asesu**	**Cynnwys**
Bydd y dysgwr yn:	*Gall y dysgwr:*	
DD2 Deall sut mae'r amgylchedd adeiledig yn effeithio ar ei werth	**MPA2.4** Asesu effeithiau **datblygiad** ar gymunedau	**Datblygiad** • Sŵn • Annibendod • Amharu ar wasanaethau • Aestheteg • Parcio a mynediad • Yr amgylchedd e.e. bywyd gwyllt

© WJEC CBAC Ltd.

Deilliannau dysgu	**Meini prawf asesu**	**Cynnwys**
Bydd y dysgwr yn:	*Gall y dysgwr:*	
DD3 Argymell ffyrdd o ychwanegu gwerth at amgylcheddau adeiledig	**MPA3.1** **Cyflwyno** opsiynau ar gyfer ffyrdd o ychwanegu gwerth at amgylcheddau adeiledig	**Cyflwyno** • Defnyddio deunyddiau ategol • Arddull e.e. iaith, naws • Strwythur e.e. defnyddio penawdau, cyfeirio • Trefnu gwybodaeth
	MPA3.2 **Cyfiawnhau** awgrymiadau ar gyfer ychwanegu gwerth at amgylcheddau adeiledig	**Cyfiawnhau** • Cyflwyno achos dros weithredu • Defnyddio iaith ddarbwyllol • Defnyddio tystiolaeth i ategu'r cynnig

© WJEC CBAC Cyf.

Asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n allanol.

Mae'r fanyleb ar gyfer yr asesiad allanol fel a ganlyn:

- Bydd aseiniad ar gael bob blwyddyn academaidd a rhaid ei agor ar ôl 1af Mai bob blwyddyn
- Asesiad 6 awr o hyd wedi'i amseru a'i oruchwylio
- Ni chaniateir i'r dysgwyr gydweithio yn ystod adegau pan fyddant yn gweithio ar dasgau asesu
- Bydd yr aseiniad a gaiff ei bennu'n allanol yn nodi'r adnoddau y mae'n rhaid eu darparu ar gyfer pob dysgwr
- Rhaid i'r dysgwyr gwblhau'r asesiad o fewn tair wythnos o'r adeg y bydd y ganolfan yn agor yr aseiniad
- Rhaid i ganolfannau sicrhau pan fydd dysgwyr yn cwblhau'r asesiad allanol mewn mwy nag un sesiwn, bod prosesau ar waith i sicrhau na all y dysgwyr gael gafael ar eu tystiolaeth rhwng sesiynau
- Rhaid cofnodi pob sesiwn. Darperir taflen amser
- Bydd pob asesiad yn cwmpasu'r holl ddeilliannau dysgu ar gyfer yr uned. Bydd yn nodi pa feini prawf asesu a gaiff eu targedu ar gyfer yr asesiad
- Bydd pob asesiad allanol yn gofyn i'r ymgeisydd ddwyn y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddysgwyd ganddynt drwy gydol yr uned ynghyd a chreu cysylltiadau rhyngddynt a'u cymhwyso drwy ymateb i un neu fwy o'r canlynol:
    - Ysgogiad neu fater
    - Briff dylunio neu broblem
- Bydd CBAC yn llunio cynllun marcio a ddefnyddir fel sail ar gyfer marcio'r asesiad allanol
- Cânt eu graddio gan ddefnyddio Llwyddiant Lefel 1, Llwyddiant Lefel 2, Teilyngdod Lefel 2 a Rhagoriaeth Lefel 2.
- Rhaid dogfennu'r broses o oruchwylio ac amseru unedau a gaiff eu hasesu'n allanol yn llawn yn unol â gofynion CBAC.

© WJEC CBAC Ltd.

Sicrhau bod yr addysgu yn berthnasol yn alwedigaethol

Mae'n bwysig bod dysgwyr yn cydnabod bod y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a feithrinir ganddynt yn berthnasol yn alwedigaethol. Mae sawl ffordd y gellir cyflawni hyn:

- Darparu profiad gwaith o fewn gweithle
- Ymweld â gwahanol fathau o amgylcheddau adeiledig
- Trefnu sgyrsiau gan siaradwyr gwadd, megis cynrychiolwyr adrannau adfywio awdurdodau lleol
- Cynnal gweithgareddau sy'n seiliedig ar senario gwaith.

Isod ceir enghreifftiau o ddulliau cyflwyno y gellid eu defnyddio i wella dealltwriaeth y dysgwyr.

Enghraifft 1
Mae'r dysgwyr yn ymweld ag ardal yn eu hamgylchedd lleol lle mae problemau cymdeithasol penodol. Mae'r dysgwyr yn arsylwi amgylchedd adeiledig yr ardal dan sylw. Mae arweinydd cymunedol lleol, megis cynghorydd lleol, yn ymweld â'r ardal gyda'r dysgwyr, gan nodi'r materion cymdeithasol. Gwahoddir y dysgwyr i lunio adroddiad yn awgrymu sut y gellir gwella'r amgylchedd adeiledig. Mae'r dysgwyr yn mynd i gyfarfod pobl leol er mwyn cyflwyno eu syniadau. Maent yn cael adborth gan y gymuned leol a'r cynghorydd lleol.

Enghraifft 2
Daw cynrychiolydd o brosiect datblygu tai lleol i ymweld â'r ganolfan er mwyn rhoi cyflwyniad i'r dysgwyr. Mae'r cyflwyniad yn cynnwys cynlluniau o'r datblygiad a'r rhesymau dros gynnwys y gwahanol elfennau. Mae'r dysgwyr yn gweithredu fel grŵp ffocws gan roi eu safbwyntiau ar sut y mae'r cynigion yn diwallu anghenion pobl ifanc sy'n byw yn yr ardal.

Enghraifft 3
Mae israddedigion o brifysgol leol yn gweithio gyda'r dysgwyr mewn grwpiau bach mewn perthynas â phrosiect datblygu realistig. Mae'r dysgwyr yn helpu'r israddedigion i gynnig syniadau ar gyfer datblygiad. Wedyn mae'r dysgwyr yn cynnal gwaith ymchwil o fewn eu cymuned leol mewn perthynas â'r cynigion datblygu. Maent yn dadansoddi'r canlyniadau ac yn eu defnyddio mewn adroddiad i gyfiawnhau eu cynigion.

Creu Cysylltiadau
Mae'r sefydliadau y gellid cysylltu â hwy i ddarparu help yn cynnwys y canlynol:

- Cymdeithasau tai
- Cwmnïau adeiladu
- Awdurdodau lleol
- Cwmnïau cyfleustodau.

© WJEC CBAC Cyf.

Uned 2 Cynnal a chadw'r amgylchedd adeiledig

Cod cofrestriad uned CBAC 9832

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

Nod a diben
Diben yr uned hon yw i'r dysgwyr gynllunio gwaith i gynnal a chadw amgylcheddau adeiledig, ymgymryd â'r gwaith hwnnw a chyflwyno adroddiad arno.

Cyflwyniad i'r uned
Pam bod rhai rhannau o adeiladau yn wynebu anawsterau cyn rhannau eraill? Sut y gellir canfod y problemau hyn? Beth yw'r effeithiau os na chaiff y problemau hyn eu datrys? A yw'n werth talu i wasanaethu boeler yn rheolaidd? A all deunyddiau cynaliadwy wneud mwy na dim ond cyfrannu at achub y blaned? Sut y gallaf atgyweirio plwg trydan neu dap sy'n diferu yn ddiogel? Sut y gallaf adnewyddu llenni sydd wedi rhwygo neu atgyweirio tyllau mewn plaster? Sut y gallaf wneud i ddrws diffygiol agor a chau'n iawn? Pa wahanol ffyrdd y gellir mynd ati i ddatrys y problemau cynnal a chadw hyn neu a ellir eu dileu cyn iddynt ddigwydd?

Mae pob un ohonom yn gwybod am ddiffygion sydd wedi digwydd mewn adeiladau a'u hamgylcheddau, boed hynny oherwydd y tywydd neu ansawdd y gwaith adeiladu. Yn ein cartrefi, ein hysgol neu yn y gweithle, gallwn feddwl am broblemau sydd wedi digwydd ac yr ymdriniwyd â hwy'n briodol. Gall unrhyw amgylchedd adeiledig wynebu problemau cynnal a chadw, boed yn swyddfa llawn technoleg neu'n gastell hanesyddol. Gall nodi'r diffygion hyn arbed arian i fusnes, ond gall nodi achos diffygion arbed mwy byth. Mae gan adeiladwyr, penseiri, dylunwyr mewnol, rheolwyr cyfleusterau neu grefftwyr oll ran i'w chwarae wrth gynnal a chadw amgylcheddau adeiledig. Gellir rheoli'r broses drwy waith arferol er mwyn archwilio rhai elfennau penodol o'r adeilad yn rheolaidd e.e. mesur holltau ymsuddiant yn rheolaidd er mwyn nodi newidiadau. Mae gan ddulliau cynlluniedig fel trefniant blynyddol i wasanaethu boeler gwres canolog hefyd ran i'w chwarae. Gellir hefyd ddefnyddio elfennau dylunio i ddileu neu leihau'r angen am waith atgyweirio costus e.e. dylunwyr mewnol yn dynodi ffabrigau cryf a chadarn ar gyfer ardaloedd eistedd a ddefnyddir yn rheolaidd. Mae cynnal a chadw'r amgylchedd adeiledig yn gofyn am amrywiaeth o weithgareddau sydd, gyda'i gilydd, yn cyfrannu at amgylcheddau adeiledig cynaliadwy, diogel, cyfforddus a llai costus.

Drwy'r uned hon, bydd y dysgwyr yn nodi diffygion y tu mewn a'r tu allan i amgylcheddau adeiledig. Byddant yn dysgu i ddeall y gydberthynas rhwng cynnal a chadw a diogelu'r amgylchedd adeiledig, yn enwedig sut y mae gwahanol fathau o waith cynnal a chadw yn helpu i ddiogelu'r amgylchedd adeiledig. Bydd y dysgwyr yn meithrin sgiliau ymarferol er mwyn ymgymryd â gwaith atgyweirio ar ddiffygion a nodwyd a sgiliau cyfathrebu er mwyn trosglwyddo gwybodaeth yn briodol i wahanol aelodau o dimau dylunio ac adeiladu.

© WJEC CBAC Ltd.

Deilliannau dysgu	**Meini prawf asesu**	**Cynnwys**
Bydd y dysgwr yn:	*Gall y dysgwr:*	
DD1 Gwybod am achosion diffygion mewn amgylcheddau adeiledig	**MPA1.1** Disgrifio **achosion diffygion** yn yr amgylchedd adeiledig	**Achosion diffygion** • Traul • Deunyddiau gwael • Gwaith adeiladu gwael • Ymsuddiant • Tywydd garw • Manylebau gwael • Amodau gwaith gwael • Gweithwyr heb eu hyfforddi
	MPA1.2 Disgrifio sut y caiff diffygion yn yr amgylchedd adeiledig eu **canfod**	**Canfod** • Arsylwi • Mesuriadau • Addas at y diben • Defnyddio stilwyr • Ynysu cydrannau • Cynlluniau • Manylebau • Gwybodaeth dechnegol y gweithgynhyrchwyr

© WJEC CBAC Cyf.

Deilliannau dysgu	**Meini prawf asesu**	**Cynnwys**
Bydd y dysgwr yn:	*Gall y dysgwr:*	
DD2 Deall y gydberthynas rhwng cynnal a chadw a diogelu'r amgylchedd adeiledig	**MPA2.1** Egluro **effeithiau** gwaith cynnal a chadw gwael ar amgylcheddau adeiledig	**Effeithiau** • Diogelwch • Cymdeithasol e.e. Cysur, aestheteg • Ariannol e.e. Cynnydd mewn gorbenion • Amgylcheddol e.e. Allyriadau • Economaidd e.e. Cyflogaeth
	MPA2.2 Egluro'r gwahanol **fathau o waith cynnal a chadw** ar gyfer amgylcheddau adeiledig	**Mathau o waith cynnal a chadw** • Arferol • Wedi'i gynllunio • Heb ei gynllunio • Mewnol • Ar gontract allanol
	MPA2.3 Egluro sut mae **mesurau diogelu adeiladau** yn lleihau gweithgareddau cynnal a chadw	**Mesurau diogelu adeiladau** • Glanhau • Paentio ac addurno • Rheolau o ran defnydd • Gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio • Profion rheolaidd • Arwyddion • Diogelwch • Cadwraeth ynni • Cynaliadwyedd • Dulliau awyru • Deunyddiau amddiffynnol

© WJEC CBAC Ltd.

Deilliannau dysgu	**Meini prawf asesu**	**Cynnwys**
Bydd y dysgwr yn:	*Gall y dysgwr:*	
DD3 Gallu atgyweirio diffygion i'r amgylchedd adeiledig	**MPA3.1** Defnyddio **offer** i gwblhau tasgau atgyweirio	**Offer** • Offer llaw • Offer trydanol
	MPA3.2 Cymhwyso technegau er mwyn cwblhau **tasgau atgyweirio**	**Tasgau atgyweirio** • Tyllau mewn plaster • Holltau mewn plaster • Pyst drysau wedi pydru • Ailhongian drws • Sgyrtin wedi'i ddifrodi • Gwaith paent caenog wedi sgwffio • Darnau o bapur wal rhydd • Paru patrwm • Gorchuddion cadeiriau • Ffabrigau wedi rhwygo • Hongian llenni newydd • Morter wedi syrthio allan o waith brics • Ailosod teilsen sydd wedi hollti • Plwg ar ddyfais • Soced diffygiol • Sinc wedi'i flocio • Uniadau sy'n gollwng • Darn o gafn sydd wedi'i ddifrodi • Gwaith ar y to

© WJEC CBAC Cyf.

Deilliannau dysgu	**Meini prawf asesu**	**Cynnwys**
Bydd y dysgwr yn:	*Gall y dysgwr:*	
DD3 Gallu atgyweirio diffygion i'r amgylchedd adeiledig	**MPA3.3** Cymhwyso gofynion **iechyd a diogelwch** wrth gwblhau tasgau atgyweirio	**Iechyd a diogelwch** • Offer Amddiffynnol Personol • Defnyddio offer • Defnyddio arwyddion a rhybuddion • Ystyried yr amgylchedd • Ystyried eraill • Ystyried eich hun • Defnyddio'r ddogfennaeth a ddarperir e.e. asesiad risg, datganiad dull

© WJEC CBAC Ltd.

Deilliannau dysgu	**Meini prawf asesu**	**Cynnwys**
Bydd y dysgwr yn:	*Gall y dysgwr:*	
DD4 Gallu cyflwyno adroddiad ar weithgareddau cynnal a chadw	**MPA4.1** **Dogfennu** gweithgareddau cynnal a chadw	**Dogfennu** • Eglurder gwybodaeth • Cywirdeb gwybodaeth • Defnyddio ffurflenni
	MPA4.2 **Cyfathrebu** gan gyfleu gweithgareddau cynnal a chadw	**Cyfathrebu** • Gwahanol gynulleidfaoedd e.e. cleientiaid, uwch aelodau o staff, isgontractwyr, y gymuned • Iaith briodol e.e. technegol ac annhechnegol • Naws ac arddull e.e. eglurder mynegiant, geiriad, pwyslais • Trefniadaeth e.e. strwythur gwybodaeth, diwyg, defnyddio penawdau

© WJEC CBAC Cyf.

		Bandiau Perfformiad			
Deilliant Dysgu	**Meini prawf asesu**	**Llwyddiant Lefel 1**	**Llwyddiant Lefel 2**	**Teilyngdod Lefel 2**	**Rhagoriaeth Lefel 2**
DD1 Gwybod am achosion diffygion mewn amgylcheddau adeiledig	**MPA1.1** Disgrifio **achosion diffygion** yn yr amgylchedd adeiledig	Yn amlinellu diffygion yn yr amgylchedd adeiledig gan ddefnyddio termau cyffredinol	Yn disgrifio achosion amrywiaeth o ddiffygion o fewn amgylchedd adeiledig penodedig, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn berthnasol	Yn disgrifio achosion amrywiaeth o ddiffygion o fewn amgylchedd adeiledig penodedig yn fanwl, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn berthnasol	Yn disgrifio achosion amrywiaeth eang o ddiffygion perthnasol o fewn amgylchedd adeiledig penodedig yn fanwl
	MPA1.2 Disgrifio sut y caiff diffygion yn yr amgylchedd adeiledig eu **canfod**	Yn amlinellu sut y caiff diffygion yn yr amgylchedd adeiledig eu canfod gan ddefnyddio termau cyffredinol	Yn disgrifio sut y caiff amrywiaeth o ddiffygion o fewn amgylchedd adeiledig penodedig eu canfod	Yn disgrifio'n fanwl sut y caiff amrywiaeth o ddiffygion o fewn amgylchedd adeiledig penodedig eu canfod	
DD2 Deall y gydberthynas rhwng cynnal a chadw a diogelu'r amgylchedd adeiledig	**MPA2.1** Egluro **effeithiau** gwaith cynnal a chadw gwael ar amgylcheddau adeiledig	Yn amlinellu, gyda rhesymeg gyffredinol, amrywiaeth gyfyngedig o effeithiau gwaith cynnal a chadw gwael ar amgylcheddau adeiledig, gan ddefnyddio termau cyffredinol	Yn egluro effeithiau gwaith cynnal a chadw gwael. Ceir rhywfaint o resymeg yn y dystiolaeth ac mae'r cynnwys yn briodol ar y cyfan i amgylchedd adeiledig penodedig	Yn egluro effeithiau gwaith cynnal a chadw gwael. Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn cynnwys rhesymeg dda ac yn briodol i amgylchedd adeiledig penodedig	
	MPA2.2 Disgrifio gwahanol **fathau o gynnal a chadw** ar gyfer amgylcheddau adeiledig	Yn amlinellu gwahanol fathau o gynnal a chadw ar gyfer amgylcheddau adeiledig gan ddefnyddio termau cyffredinol	Yn disgrifio gwahanol fathau o gynnal a chadw priodol ar gyfer amgylchedd adeiledig		
	MPA2.3 Egluro sut mae **mesurau diogelu adeiladau** yn lleihau gweithgareddau cynnal a chadw	Yn amlinellu sut mae mesurau diogelu adeiladau yn lleihau gweithgareddau cynnal a chadw gan ddefnyddio termau cyffredinol a rhesymeg gyfyngedig	Yn egluro sut mae diogelu amgylchedd adeiledig yn lleihau gweithgareddau cynnal a chadw. Ceir rhywfaint o resymeg yn y dystiolaeth ac mae rhywfaint o'r cynnwys yn briodol i amgylchedd adeiledig penodedig	Yn egluro sut mae mesurau diogelu yn lleihau gweithgareddau cynnal a chadw mewn perthynas ag amgylchedd adeiledig penodedig. Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn cynnwys rhesymeg dda ac yn berthnasol i amgylchedd adeiledig penodedig	Yn egluro gyda rhesymeg glir a manwl sut mae mesurau diogelu yn lleihau gweithgareddau cynnal a chadw mewn perthynas ag amgylchedd adeiledig penodedig

© WJEC CBAC Ltd.

		Bandiau perfformiad			
Deilliant Dysgu	**Meini prawf asesu**	**Llwyddiant Lefel 1**	**Llwyddiant Lefel 2**	**Teilyngdod Lefel 2**	**Rhagoriaeth Lefel 2**
DD3 Gallu atgyweirio diffygion i'r amgylchedd adeiledig	**MPA3.1** Defnyddio **offer** i gwblhau tasgau atgyweirio	Yn defnyddio offer, gydag arweiniad, yn briodol i gwblhau amrywiaeth cyfyngedig o dasgau atgyweirio	Yn defnyddio amrywiaeth o offer, gydag arweiniad cyfyngedig, yn briodol i gwblhau tasgau atgyweirio penodedig	Yn defnyddio amrywiaeth o offer yn annibynnol ac yn briodol i gwblhau tasgau atgyweirio penodedig	
	MPA3.2 Cymhwyso **technegau** i gwblhau tasgau atgyweirio	Yn cymhwyso technegau, gydag arweiniad, i gwblhau amrywiaeth gyfyngedig o dasgau atgyweirio o fewn lefelau goddefgarwch derbyniol	Yn cymhwyso amrywiaeth o dechnegau, gydag arweiniad cyfyngedig, i gwblhau tasgau atgyweirio penodedig y mae'r rhan fwyaf ohonynt o fewn lefelau goddefgarwch derbyniol	Yn cymhwyso amrywiaeth o dechnegau, gydag arweiniad cyfyngedig, i gwblhau tasgau atgyweirio penodedig yn annibynnol o fewn lefelau goddefgarwch derbyniol	Yn cymhwyso amrywiaeth o dechnegau i gwblhau tasgau atgyweirio penodedig yn annibynnol o fewn lefelau goddefgarwch derbyniol
	MPA3.3 Cymhwyso gofynion **iechyd a diogelwch** i gwblhau tasgau atgyweirio	Yn cymhwyso gofynion iechyd a diogelwch o dan gyfarwyddyd	Yn cymhwyso gofynion iechyd a diogelwch wrth gwblhau tasgau atgyweirio. Mae'n bosibl y bydd angen rhywfaint o arweiniad ac ymyriad		
DD4 Gallu cyflwyno adroddiad ar weithgareddau cynnal a chadw	**MPA4.1** **Dogfennu** gweithgareddau cynnal a chadw	Yn dogfennu amrywiaeth gyfyngedig o weithgareddau cynnal a chadw, y mae rhai ohonynt yn gywir	Yn dogfennu'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau cynnal a chadw, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gywir		
	MPA4.2 **Cyfathrebu** gan gyfleu gweithgareddau cynnal a chadw	Mae'r cyfathrebu yn dangos rhywfaint o ddefnydd o iaith, arddull a chynnwys priodol ar gyfer o leiaf un gynulleidfa. Ceir rhywfaint o dystiolaeth o strwythur i'r cyfathrebu.	Mae'r cyfathrebu yn cynnwys defnydd effeithiol o iaith, arddull a chynnwys ar gyfer o leiaf un gynulleidfa. Ceir tystiolaeth gyfyngedig bod y cynnwys wedi'i addasu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Ceir rhywfaint o dystiolaeth o strwythur.	Yn cyfathrebu'n effeithiol gan addasu'r iaith, yr arddull a'r cynnwys i wahanol gynulleidfaoedd. Ceir rhywfaint o dystiolaeth o strwythur i'r cyfathrebu	Yn cyfathrebu'n effeithiol gan addasu'r iaith, yr arddull a'r cynnwys i wahanol gynulleidfaoedd. Mae'r cyfathrebu wedi'i strwythuro'n dda a cheir dilyniant rhesymegol i'r wybodaeth, gyda diwyg clir a defnydd priodol o benawdau

© WJEC CBAC Cyf.

Asesu

Gofynion ar gyfer canolfannau

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a'i chymedroli'n allanol. Mae'n rhaid cynnal pob asesiad o dan amodau asesu dan reolaeth a phennwyd rheolaethau ar gyfer pob cam o'r broses asesu: pennu tasgau, cyflawni tasgau a marcio tasgau.

Pennu tasgau
Er mwyn helpu canolfannau i asesu'r uned hon, mae CBAC wedi darparu aseiniad enghreifftiol ynghyd â chanllawiau a meini prawf ar gyfer ei ddefnyddio. Mae'r aseiniad enghreifftiol yn cynnwys tasgau sy'n gofyn am ddull gweithredu cymhwysol a chyfannol. Cynllunnir yr aseiniadau enghreifftiol fel y gellir eu defnyddio fel ag y maent neu fel y gall y canolfannau eu haddasu i gyfateb i'r anghenion sector lleol a defnyddio'r adnoddau lleol sydd ar gael i'r ganolfan. Mae'r aseiniad enghreifftiol yn cynnwys gwybodaeth am ba agweddau ar yr aseiniad y gellir eu haddasu.

Cyflawni tasgau
Fel rhan o'r broses o gyflawni tasgau, pennir rheolaethau ar gyfer yr agweddau allweddol, sef amser, adnoddau, goruchwyliaeth a chydweithio.

- Caiff yr amser y dylid ei gymryd ei ddynodi yn yr aseiniad enghreifftiol. Efallai yr awgrymir amseroedd ar gyfer rhai tasgau unigol o fewn yr amser asesu cyffredinol.
- Mae'n rhaid darparu adnoddau sy'n rhoi cyfle teg a llawn i'r dysgwyr weld y meini prawf marcio ac sy'n briodol ar gyfer yr asesiad a gofynion yr uned. Nodir manylion rheolaethau penodol yn yr aseiniad enghreifftiol.
- Darperir gwybodaeth o ran lle y mae angen goruchwyliaeth uniongyrchol yn yr aseiniad enghreifftiol.
- Rhoddir canllawiau ar gydweithio, a lle y'i caniateir, â'r aseiniad enghreifftiol.

Y diben yw rhoi canllawiau ychwanegol i'r consortia i'w helpu i reoli'r dasg asesu.

Marcio tasgau
Mae'n rhaid i'r ganolfan farcio tystiolaeth asesu'r dysgwyr yn erbyn y bandiau perfformiad ar gyfer pob maen prawf asesu. Mae'r bandiau perfformiad yn disgrifio i ba raddau y cyflawnwyd y maen prawf asesu gan y dysgwr.

Sicrhau bod yr addysgu yn berthnasol yn alwedigaethol

Mae'n bwysig bod dysgwyr yn cydnabod bod y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a feithrinir ganddynt yn berthnasol yn alwedigaethol. Mae sawl ffordd y gellir cyflawni hyn:

- Darparu profiad gwaith o fewn gweithle. Byddai hyn yn rhoi cyfle i'r dysgwyr arsylwi sut y caiff gweithgareddau cynnal a chadw eu cynllunio a'u gweithredu
- Defnyddio dogfennaeth safonol y diwydiant i gyflwyno adroddiadau ar y gweithgareddau cynnal a chadw yr ymgymerir â hwy
- Trefnu sgyrsiau gan siaradwyr gwadd, megis arbenigwyr dylunio ym maes adeiladu, ar fesurau a gaiff eu cynnwys wrth ddylunio er mwyn diogelu'r amgylchedd adeiledig
- Ymgymryd â gweithgareddau yn seiliedig ar senario gwaith.

Isod ceir enghreifftiau o ddulliau cyflwyno y gellid eu defnyddio i wella dealltwriaeth y dysgwyr.

© WJEC CBAC Ltd.

Enghraifft 1
Mae'r dysgwyr yn ymweld â chyfleuster chwaraeon a hamdden sydd newydd agor. Gan weithio mewn grwpiau, mae pob un ohonynt yn ymchwilio i adran o'r cyfleuster, gan nodi meysydd y byddai gwaith cynnal a chadw rheolaidd o fudd iddynt. Maent yn ymchwilio i raddfa gost ar gyfer pob awgrym ac yn ei darparu. Maent yn defnyddio canlyniadau eu hymchwiliad i ddatblygu cynllun cynnal a chadw rheolaidd ar gyfer eu maes. Maent yn cyflwyno eu cynlluniau i un cynrychiolydd neu fwy o dîm rheoli'r cyfleusterau sy'n rhoi adborth iddynt, gan gynnwys manylion am eu cynllun cynnal a chadw rheolaidd. Bydd hyn yn cynnwys manylion am oblygiadau cyfreithiol, ariannol a chymdeithasol methu â chynnal y cyfleuster.

Enghraifft 2
Mae grŵp o adwerthwyr yn rhoi cyfle i'r dysgwyr ymweld â'u siopau i gynnal archwiliad o'r adeiladau. Mae'r dysgwyr yn archwilio un rhan neu fwy o'r eiddo, gan nodi pa waith atgyweirio a mathau eraill o waith cynnal a chadw sydd eu hangen. Mae'r dysgwyr yn ymchwilio i gostau darparu'r deunyddiau i gyflawni'r gweithgareddau cynnal a chadw a nodir drwy'r gwaith ymchwil. Mae'r dysgwyr yn llunio adroddiad, a gyflwynir i'w hadwerthwr yn crynhoi'r gweithgareddau a argymhellir, y costau ac effaith debygol methu â rhoi'r argymhellion ar waith. Mae'r dysgwyr yn trafod rhestr o gamau gweithredu gyda'r adwerthwr a gaiff eu blaenoriaethu yn ôl eu meini prawf e.e. cost, amser, colli cyn lleied o werthiannau â phosibl, budd hirdymor ac ati.

Enghraifft 3
Mae masnachwr adeiladu lleol yn rhoi amrywiaeth o ddeunyddiau i'r dysgwyr. Gall y rhain gynnwys eitemau o blith cynhyrchion nas gwerthir mwyach, cynhyrchion diffygiol ac ati megis bwrdd plaster nas defnyddiwyd a hanner brics. Gall y dysgwyr eu defnyddio i gynnal profion ar adnoddau ac i nodi goblygiadau gwaith cynnal a chadw gwael e.e. pa mor wan yw'r bwrdd pan dorrir drwy'r papur neu effeithiau'r tywydd ar bren nas diogelwyd. Gellid defnyddio'r deunyddiau a ddarparwyd hefyd fel sail ar gyfer cyfres o dasgau atgyweirio, gan roi'r cyfle i'r dysgwyr feithrin sgiliau ymarferol gan ddefnyddio amrywiaeth o offer yn ogystal ag ategu eu dealltwriaeth o ddeunyddiau.

Creu Cysylltiadau
Mae'r sefydliadau y gellid cysylltu â hwy i ddarparu help yn cynnwys y canlynol:

- Cyfleusterau lleol gan gynnwys canolfannau cymunedol, canolfannau chwaraeon, swyddfeydd, adwerthwyr
- Masnachwyr adeiladu
- Sefydliadau rheoli cyfleusterau
- Cymdeithasau tai
- Cwmnïau adeiladu
- Awdurdodau lleol
- Cwmnïau cyfleustodau.

© WJEC CBAC Cyf.

Uned 3 Amgylcheddau adeiledig cynaliadwy

Cod cofrestriad uned CBAC 9833

Oriau dysgu dan arweiniad 30

Nod a diben
Drwy'r uned synoptig hon, bydd y dysgwyr yn gallu defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o werth amgylcheddau adeiledig a'r ffordd y cânt eu cynnal a'u cadw i ymchwilio i safbwyntiau'r gymuned ynghylch opsiynau datblygu cynaliadwy.

Cyflwyniad i'r uned
Beth yw cynaliadwyedd? Pam fod angen ei ystyried? Pam ei fod yn sydyn mor bwysig? Pwy sy'n elwa ar gynaliadwyedd? A yw paneli solar yn gweithio? A allwch ddefnyddio pren o goed lleol mewn tŷ newydd? A ddylem brynu deunyddiau lleol? A allwch ailgylchu tŷ? Sut y caiff technegau dylunio ac adeiladu cynaliadwy eu defnyddio i ymdrin â materion amgylcheddol? A all dulliau adeiladu cynaliadwy gynyddu gwerth fy eiddo? A all dulliau adeiladu cynaliadwy fod o fudd i gymdeithas a chymunedau? Sut y gellir integreiddio cynaliadwyedd mewn prosiect adeiladu cymunedol?

Yn gynyddol, mae cymdeithas yn pryderu am yr amgylchedd a materion cynaliadwyedd, megis lleihau gwastraff, rheoli llygredd, defnyddio adnoddau, gwarchod ein treftadaeth a'n diwylliant, blodau a phlanhigion a diogelu bioamrywiaeth. O ganlyniad, mae'n rhaid i'r diwydiant adeiladu ddangos ei fod yn ymateb o ran y ffordd y mae'n datblygu ac yn cynnal a chadw'r amgylchedd adeiledig. Mae bodloni gofynion cyfreithiol a rheoliadol o ran cynaliadwyedd yn rhoi pwysau ychwanegol ar unrhyw ddatblygiad adeiladu ac ymdrechion i ddatblygu'r amgylchedd adeiledig. Boed yn bensaer sy'n dylunio adeilad newydd neu'n adnewyddu adeilad, yn gyflenwr sy'n darparu deunyddiau i gontractwyr adeiladu neu'n gontractwr sy'n cynllunio'r broses a ddefnyddir i adeiladu'r amgylchedd adeiledig, bydd yn ystyried y cysyniad o adeiladu cynaliadwy a sut y mae'n effeithio ar yr amgylchedd adeiledig a'r amgylchedd naturiol a'u defnyddwyr.

Drwy'r uned hon, byddwch yn dysgu am dechnegau a phrosesau dylunio ac adeiladu cynaliadwy a ddefnyddir i ymdrin â materion cynaliadwyedd. Byddwch hefyd yn gallu defnyddio eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r ffordd y gellir gwella gwerth amgylchedd adeiledig a sut y mae diogelu a chynnal a chadw'r amgylchedd adeiledig yn effeithio ar gymunedau. Byddwch hefyd yn meithrin sgiliau ymchwil sy'n eich galluogi i ryngweithio â chymunedau lleol ac ymchwilio i'w safbwyntiau am gynlluniau datblygu cynaliadwy ar gyfer eu hamgylchedd.

© WJEC CBAC Ltd.

Deilliannau dysgu	**Meini prawf asesu**	**Cynnwys**
Bydd y dysgwr yn:	*Gall y dysgwr:*	
DD1 Deall yr arferion adeiladu a ddefnyddir i gyfrannu at gynaliadwyedd yn yr amgylchedd adeiledig	**MPA1.1** Nodi **deunyddiau cynaliadwy** a ddefnyddir ym maes adeiladu ac yn yr amgylchedd adeiledig	**Deunyddiau cynaliadwy** • Ffynonellau • Nodweddion • Cymwysiadau
	MPA1.2 Egluro sut y caiff **prosesau cynaliadwy** eu defnyddio ym maes adeiladu ac yn yr amgylchedd adeiledig	**Prosesau cynaliadwy** • Dod o hyd i ddeunyddiau • Ailgylchu/ailddefnyddio • Cael gwared ar ddeunyddiau gwastraff • Asesu hyfywedd economaidd
	MPA1.3 Gwerthuso cynaliadwyedd **dulliau adeiladu**	**Dulliau adeiladu** • Adeiladau newydd traddodiadol • Adeiladau newydd modern • Eco-adeilad • Gwaith adnewyddu

© WJEC CBAC Cyf.

Deilliannau dysgu	**Meini prawf asesu**	**Cynnwys**
Bydd y dysgwr yn:	*Gall y dysgwr:*	
DD2 Deall materion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy	**MPA2.1** Disgrifio'r **mesurau** a ddefnyddir gan y sector adeiladu i leihau effeithiau'r defnydd o ynni	**Mesurau** • Inswleiddio • Dulliau adeiladu • Dylunio adeiladau • Ffynonellau ynni • Y defnydd o ynni
	MPA2.2 Egluro sut mae **arferion adeiladu** yn lleihau effeithiau amgylcheddol ar yr amgylchedd adeiledig	**Arferion adeiladu** • Derbyn nwyddau • Oriau gweithredu • Dulliau adeiladu • Dod o hyd i ddeunyddiau • Dewis contractwyr • Cael gwared ar ddeunyddiau gwastraff • Ailgylchu/ailddefnyddio deunyddiau • Defnyddio offer a chyfarpar
	MPA2.3 Asesu buddiannau arferion adeiladu cynaliadwy i **randdeiliaid allweddol**	**Buddiannau** • Economaidd e.e. cyflogaeth, ariannol • Cymdeithasol e.e. aestheteg, cydlyniant cymunedol, achosion o darfu **Rhanddeiliaid allweddol** • Trigolion lleol • Busnesau lleol • Awdurdodau lleol a chenedlaethol e.e. awdurdodau lleol, adrannau'r llywodraeth • Busnesau adeiladu

Deilliannau dysgu	**Meini prawf asesu**	**Cynnwys**
Bydd y dysgwr yn:	*Gall y dysgwr:*	
DD3 Gallu ymchwilio i ganfyddiadau'r gymuned am opsiynau cynaliadwy ar gyfer yr amgylchedd adeiledig	**MPA3.1** **Dylunio** offer ymchwil	**Dylunio** • Methodoleg e.e. holiaduron, grwpiau ffocws, cyfweliadau • Geirio cwestiynau • Dilyniant cwestiynau • Offer cofnodi data
	MPA3.2 **Dadansoddi canfyddiadau**	**Dadansoddi canfyddiadau** • Defnyddio meddalwedd ac offer TGCh • Coladu gwybodaeth • Craffu ar wybodaeth er mwyn nodi tuedd a dylanwadau • Cysylltu syniadau • Nodi tueddiadau, patrymau a chydberthnasau • Dehongli'r canfyddiadau
	MPA3.3 **Cyflwyno** canfyddiadau	**Cyflwyno** • Defnyddio meddalwedd ac offer TGCh • Defnyddio diagramau a delweddau • Eglurder iaith, naws ac arddull • Cyflymder cyflwyno • Ystyried cynulleidfaoedd • Trefnu gwybodaeth

© WJEC CBAC Cyf.

		Bandiau perfformiad			
Deilliant Dysgu	**Meini prawf asesu**	**Llwyddiant Lefel 1**	**Llwyddiant Lefel 2**	**Teilyngdod Lefel 2**	**Rhagoriaeth Lefel 2**
DD1 Deall yr arferion adeiladu a ddefnyddir i gyfrannu at gynaliadwyedd yn yr amgylchedd adeiledig	**MPA1.1** Nodi deunyddiau cynaliadwy a ddefnyddir ym maes adeiladu a'r amgylchedd adeiledig	Yn nodi'r deunyddiau a ddefnyddir ym maes adeiladu a'r amgylchedd adeiledig	Yn nodi deunyddiau addas a ddefnyddir ym maes adeiladu a'r amgylchedd adeiledig		
	MPA1.2 Egluro sut y defnyddir prosesau cynaliadwy ym maes adeiladu a'r amgylchedd adeiledig	Darperir gwybodaeth am brosesau cynaliadwy a ddefnyddir ym maes adeiladu a'r amgylchedd adeiledig. Mae'r dystiolaeth yn ddisgrifiadol ar y cyfan	Yn egluro sut y defnyddir prosesau cynaliadwy ym maes adeiladu a'r amgylchedd adeiledig. Ceir rhywfaint o resymeg o ran sut mae'r prosesau yn ategu cynaliadwyedd	Yn egluro, gyda rhesymeg glir, brosesau cynaliadwy a ddefnyddir ym maes adeiladu a'r amgylchedd adeiledig	
	MPA1.3 Gwerthuso cynaliadwyedd dulliau adeiladu	Darperir gwybodaeth am gynaliadwyedd dulliau adeiladu. Mae'r dystiolaeth yn ddisgrifiadol ar y cyfan. Gall perthnasedd rhai dulliau adeiladu a gynhwysir fod yn gyfyngedig	Yn gwerthuso amrywiaeth o ddulliau adeiladu gan gynnwys rhywfaint o resymeg. Gall perthnasedd rhai dulliau adeiladu fod yn gyfyngedig	Yn gwerthuso amrywiaeth o ddulliau adeiladu gan ddefnyddio rhesymeg glir. Gall perthnasedd rhai dulliau adeiladu fod yn gyfyngedig	Yn gwerthuso amrywiaeth o ddulliau adeiladu perthnasol gan ddefnyddio rhesymeg glir a manwl

		Bandiau perfformiad			
Deilliant Dysgu	**Meini prawf asesu**	**Llwyddiant Lefel 1**	**Llwyddiant Lefel 2**	**Teilyngdod Lefel 2**	**Rhagoriaeth Lefel 2**
DD2 Deall materion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy	**MPA2.1** Disgrifio'r mesurau a ddefnyddir i leihau effeithiau'r defnydd o ynni	Yn amlinellu amrywiaeth o fesurau a ddefnyddir i leihau effeithiau'r defnydd o ynni	Yn disgrifio'r mesurau a ddefnyddir i leihau effeithiau'r defnydd o ynni		
	MPA2.2 Egluro sut mae arferion adeiladu yn lleihau effeithiau amgylcheddol ar yr amgylchedd adeiledig	Darperir gwybodaeth am sut mae arferion adeiladu yn lleihau effeithiau ar yr amgylchedd adeiledig. Mae'r dystiolaeth yn ddisgrifiadol ar y cyfan	Yn egluro gyda rhywfaint o resymeg sut mae arferion adeiladu yn lleihau effeithiau amgylcheddol ar yr amgylchedd adeiledig.	Yn egluro gyda rhesymeg glir sut mae arferion adeiladu yn lleihau effeithiau amgylcheddol ar yr amgylchedd adeiledig	
	MPA2.3 Asesu buddiannau arferion adeiladu cynaliadwy i randdeiliaid allweddol	Darperir gwybodaeth am fuddiannau arferion adeiladu cynaliadwy i randdeiliaid allweddol. Mae'r dystiolaeth yn ddisgrifiadol ar y cyfan. Mae perthnasedd rhai arferion adeiladu a rhanddeiliaid yn gyfyngedig	Yn asesu gyda rhywfaint o resymeg fuddiannau amrywiaeth o arferion adeiladu cynaliadwy i randdeiliaid allweddol. Gall perthnasedd rhai arferion adeiladu a rhanddeiliaid fod yn gyfyngedig	Yn asesu gyda rhesymeg glir fuddiannau amrywiaeth o arferion adeiladu cynaliadwy perthnasol i randdeiliaid allweddol. Gall perthnasedd rhai rhanddeiliaid fod yn gyfyngedig	Yn asesu gyda rhesymeg glir a manwl fuddiannau arferion adeiladu perthnasol i amrywiaeth o randdeiliaid perthnasol

© WJEC CBAC Cyf.

		Bandiau perfformiad			
Deilliant Dysgu	**Meini prawf asesu**	**Llwyddiant Lefel 1**	**Llwyddiant Lefel 2**	**Teilyngdod Lefel 2**	**Rhagoriaeth Lefel 2**
DD3 Gallu ymchwilio i ganfyddiadau'r gymuned am opsiynau cynaliadwy ar gyfer yr amgylchedd adeiledig	**MPA3.1** Dylunio offer ymchwil	Yn dylunio offer ymchwil sy'n briodol ac yn addas at y diben ar y cyfan	Yn dylunio offer ymchwil priodol sy'n addas at y diben ar y cyfan		
	MPA3.2 Dadansoddi canfyddiadau	Gwneir ymdrech i goladu'r canfyddiadau ond gyda threfniadaeth gyfyngedig. Mae'r gwaith dadansoddi a dehongli yn gyfyngedig er y tynnir sylw at rai canfyddiadau allweddol. Mae'r dystiolaeth yn debygol o fod wedi'i phwysoli tuag at ffurfiau ysgrifenedig neu ddiagramatig	Yn coladu canfyddiadau gan ddangos rhywfaint o ymwybyddiaeth o drefniadaeth. Mae'r gwaith dadansoddi yn gyfyngedig ac mae'r gwaith dehongli yn ddisgrifiadol ar y cyfan ond tynnir sylw at y canfyddiadau allweddol ar ffurf ysgrifenedig a diagramatig	Yn coladu ac yn trefnu'r canfyddiadau. Mae'r gwaith dadansoddi yn tynnu sylw at batrymau a chydberthnasau allweddol gan lunio casgliadau priodol ar y cyfan. Cyflwynir tystiolaeth gan ddefnyddio amrywiaeth o fformatau gan ddefnyddio confensiynau priodol ar y cyfan	Yn coladu ac yn trefnu'r canfyddiadau. Yn dadansoddi'n fanwl o amrywiaeth eang o ganfyddiadau gan dynnu sylw at gydberthnasau a phatrymau er mwyn llunio casgliadau priodol wedi'u hategu gan dystiolaeth. Cyflwynir tystiolaeth gan ddefnyddio amrywiaeth o fformatau gan ddefnyddio confensiynau priodol
	MPA3.3 Cyflwyno canfyddiadau	Mae'r cyflwyniad yn dangos rhywfaint o dystiolaeth o strwythur er y gall fod anghysondeb. Ceir tystiolaeth yr ystyriwyd y defnydd o sgiliau cyfathrebu	Yn llunio cyflwyniad strwythuredig gyda thystiolaeth o sgiliau cyfathrebu priodol	Yn cyflwyno'r casgliadau gyda strwythur rhesymegol clir a defnydd priodol o sgiliau cyfathrebu	

Asesu

Gofynion ar gyfer canolfannau

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a'i chymedroli'n allanol. Mae'n rhaid cynnal pob asesiad o dan amodau asesu dan reolaeth a phennwyd rheolaethau ar gyfer pob cam o'r broses asesu: pennu tasgau, cyflawni tasgau a marcio tasgau.

Pennu tasgau

Er mwyn helpu canolfannau i asesu'r uned hon, mae CBAC wedi darparu aseiniad enghreifftiol ynghyd â chanllawiau a meini prawf ar gyfer ei ddefnyddio. Mae'r aseiniad enghreifftiol yn cynnwys tasgau sy'n gofyn am ddull gweithredu cymhwysol a chyfannol. Cynllunnir yr aseiniadau enghreifftiol fel y gellir eu defnyddio fel ag y maent neu fel y gall y canolfannau eu haddasu i gyfateb i'r anghenion sector lleol a defnyddio'r adnoddau lleol sydd ar gael i'r ganolfan. Mae'r aseiniad enghreifftiol yn cynnwys gwybodaeth am ba agweddau ar yr aseiniad y gellir eu haddasu.

Cyflawni tasgau

Fel rhan o'r broses o gyflawni tasgau, pennir rheolaethau ar gyfer yr agweddau allweddol, sef amser, adnoddau, goruchwyliaeth a chydweithio.

- Caiff yr amser y dylid ei gymryd ei ddynodi yn yr aseiniad enghreifftiol.
- Mae'n rhaid darparu adnoddau sy'n rhoi cyfle teg a llawn i'r dysgwyr weld y meini prawf marcio ac sy'n briodol ar gyfer yr asesiad a gofynion yr uned. Nodir manylion rheolaethau penodol yn yr aseiniad enghreifftiol.
- Darperir gwybodaeth o ran lle y mae angen goruchwyliaeth uniongyrchol yn yr aseiniad enghreifftiol.
- Rhoddir canllawiau ar gydweithio, a lle y'i caniateir, â'r aseiniad enghreifftiol.

O fewn aseiniadau enghreifftiol CBAC, mae'n bosibl y gwneir awgrymiadau o ran amseru rhai tasgau unigol o fewn y cyfnod asesu cyffredinol. Y diben yw rhoi canllawiau ychwanegol i'r consortia i'w helpu i reoli'r dasg asesu.

Marcio tasgau

Mae'n rhaid i'r ganolfan farcio tystiolaeth asesu'r dysgwyr yn erbyn y bandiau perfformiad ar gyfer pob maen prawf asesu. Mae'r bandiau perfformiad yn disgrifio i ba raddau y cyflawnwyd y maen prawf asesu gan y dysgwr.

© WJEC CBAC Cyf.

Canllawiau Cyflwyno

Sicrhau bod yr addysgu yn berthnasol yn alwedigaethol

Mae'n bwysig bod dysgwyr yn cydnabod bod y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a feithrinir ganddynt yn berthnasol yn alwedigaethol. Mae sawl ffordd y gellir cyflawni hyn:

- Byddai dosbarthiadau meistr gan arbenigwyr sy'n gweithio gan ddefnyddio technegau adeiladu cynaliadwy yn rhoi cyfle i'r dysgwyr feithrin dealltwriaeth o brosesau drwy weithgareddau ymarferol
- Darparwyr cynhyrchion cynaliadwy yn defnyddio'r dysgwyr fel grŵp ffocws er mwyn adolygu addasrwydd eu cynhyrchion
- Partneriaid o fewn y diwydiant yn gofyn i'r dysgwyr ymgymryd â phrosiectau lle y byddant yn cynnal gwaith ymchwil sylfaenol mewn cymuned leol er mwyn canfod safbwyntiau pobl leol ar gynigion datblygu.

Isod ceir enghreifftiau o ddulliau cyflwyno y gellid eu defnyddio i wella gallu'r dysgwyr i ymchwilio i safbwyntiau'r gymuned mewn perthynas ag opsiynau ar gyfer datblygu'r amgylchedd adeiledig mewn ffordd gynaliadwy.

Enghraifft 1
Mae'r dysgwyr yn cyfarfod ag un neu fwy o gynrychiolwyr y diwydiant a fu'n rhan o brosiect adnewyddu cynaliadwy. Rhoddir manylion y prosesau, y cynhyrchion a'r technegau a ddefnyddiwyd yn ystod y gwaith adeiladu i'r dysgwyr. Mae'r dysgwyr yn darllen y wybodaeth ac yn ei defnyddio i gynnal gwahanol fathau o waith ymchwil sylfaenol gyda'r rheini sy'n defnyddio'r datblygiad. Mae'r dysgwyr yn gofyn am sylwadau ar y dulliau gweithredu a ddefnyddiwyd yn ystod y gwaith datblygu a'r rheini sydd ar waith ar hyn o bryd. Maent yn coladu'r canfyddiadau o wahanol ffynonellau, gan eu galluogi i werthuso'r fethodoleg a'r canlyniadau. Mae'r dysgwyr yn dadansoddi ac yn dehongli'r canfyddiadau, gan gyflwyno'r casgliadau i gynrychiolwyr y diwydiant.

Enghraifft 2
Mae cynrychiolwyr adran gynllunio awdurdod lleol yn rhoi darnau o gynlluniau ar gyfer datblygiadau newydd mewn ardal leol i'r dysgwyr. Maent yn gweithio gyda'r dysgwyr i ddatblygu meini prawf y gellir asesu cynigion yn eu herbyn, gan ganolbwyntio ar ofynion cynaliadwyedd. Mae'r dysgwyr yn barnu'r cynlluniau yn erbyn y meini prawf ac yn cyflwyno eu barn i'r cynrychiolwyr. Yn ogystal â meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr o arferion cynaliadwyedd, mae hyn hefyd yn meithrin sgiliau gwerthuso lefel uwch.

Enghraifft 3
Mae Pennaeth/Prifathro eu hysgol/coleg yn cyflwyno cynigion amlinellol ar gyfer datblygu adeilad newydd at ddiben penodol. Mae'r dysgwyr yn cyflwyno cynigion ar gyfer sut y gallai'r datblygiad ddefnyddio arferion cynaliadwy.

Creu Cysylltiadau
Mae'r sefydliadau y gellid cysylltu â hwy i ddarparu help yn cynnwys y canlynol:

- Masnachwyr adeiladu
- Contractwyr adeiladu
- Awdurdodau lleol
- Grwpiau cymunedol
- Grwpiau lobïo amgylcheddol.

7 GWEITHDREFNAU COFRESTRU

Bydd Cymwysterau Lefel 1/2 CBAC mewn Cynllunio a Chynnal a Chadw'r Amgylchedd Adeiledig ar gael i'w ardystio o fis Mehefin 2015.

Wedi hynny, bydd pob cymhwyster ar gael i'w ardystio bob mis Mehefin. Rhaid cyflwyno cofrestriadau ar gyfer cyfres mis Mehefin erbyn 21 Chwefror fan bellaf.

Unwaith yn unig y gall ymgeiswyr ailsefyll unedau a asesir yn fewnol ac a asesir yn allanol, a'r radd orau fydd yn cael ei defnyddio wrth agregu. Os bydd ymgeiswyr am gofrestru am uned am y trydydd tro, wrth agregu'r radd newydd ni ellir defnyddio **unrhyw ganlyniadau** o unedau a safwyd yn flaenorol, a rhaid sefyll pob uned yn y cymhwyster eto.

Unwaith yn unig y gall ymgeiswyr ailsefyll unedau a asesir yn fewnol ac a asesir yn allanol, a'r radd orau fydd yn cael ei defnyddio wrth agregu. Os bydd ymgeiswyr am gofrestru am uned am y trydydd tro, wrth agregu'r radd newydd **ni ellir** defnyddio **unrhyw ganlyniadau** o unedau a safwyd yn flaenorol, a rhaid sefyll pob uned yn y cymhwyster eto.

Cofrestriadau ar gyfer unedau
Rhaid cyflwyno cofrestriadau ar gyfer unedau unigol drwy gyflwyno'r codau uned perthnasol fel y'u dynodir ar bob uned o'r fanyleb.

Cofrestriadau ar gyfer cymwysterau
Caiff dysgwyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy'r broses gyfuno (cyfnewid). Ni fydd y broses gyfuno yn digwydd yn awtomatig: rhaid cyflwyno'r cod perthnasol er mwyn i'r broses gyfuno fynd rhagddi.

© WJEC CBAC Cyf.

8 SAFONI ALLANOL

Caiff cysondeb arferion a phenderfyniadau asesu ar draws canolfannau ei sicrhau drwy safoni sampl o waith yn allanol.

Ar gyfer pob cyfres y cofrestrir dysgwyr ar ei chyfer, bydd canolfannau yn cyflwyno sampl, yn ôl y fformiwla isod.

Cyfanswm yr ymgeiswyr	***Gwaith i'w gyflwyno***
1-10	Pob un
11-99	10 i gynnwys sampl cynrychiadol o ymgeiswyr Lefel 1 Llwyddo, Lefel 2 Llwyddo, Lefel 2 Teilyngdod a Lefel 2 Rhagoriaeth
100-199	15 i gynnwys sampl cynrychiadol o ymgeiswyr Lefel 1 Llwyddo, Lefel 2 Llwyddo, Lefel 2 Teilyngdod a Lefel 2 Rhagoriaeth
200+	25 i gynnwys sampl cynrychiadol o ymgeiswyr Lefel 1 Llwyddo, Lefel 2 Llwyddo, Lefel 2 Teilyngdod a Lefel 2 Rhagoriaeth

** Mae'r sgôr yn seiliedig ar gyfanswm y pwyntiau a gaiff y dysgwyr am eu hunedau cyn eu troi yn radd cymhwyster.*

Dylai canolfannau sicrhau eu bod yn cadw gwaith pob dysgwr nas anfonwyd at y cymedrolwr am gyfnod o ddeufis ar ôl y dyddiad cau ar gyfer anfon samplau i'w safoni. Gall CBAC ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau anfon pob darn o waith i'w safoni a rhaid i ganolfannau allu cydymffurfio ar unwaith â chais o'r fath.

Dylai canolfannau gyflwyno sampl ar gyfer **pob uned** sy'n cynnwys:

- Briff yr aseiniad dan reolaeth a ddefnyddiwyd i bennu'r gweithgaredd asesu
- Taflen gweithgareddau asesu dan reolaeth wedi'i chwblhau a'i llofnodi gan yr aseswr er mwyn cadarnhau bod y rheolaethau ar gyfer yr uned, gan gynnwys dilysrwydd y dystiolaeth, wedi'u cymhwyso
- Taflenni cofnodi marciau wedi'u cwblhau yn amlinellu pa fandiau perfformiad y mae'r dystiolaeth yn eu bodloni
- Yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan y dysgwyr wrth gwblhau'r asesiad dan reolaeth, wedi'i hanodi'n briodol gan yr aseswr.

Bydd safonwyr yn adolygu'r holl dystiolaeth a gyflwynir er mwyn sicrhau safonau cyson. Caiff tystiolaeth ei barnu yn erbyn y meini prawf canlynol:

- Pennu tasgau – a bennwyd tasgau o fewn y rheolaethau a bennwyd gan CBAC yn yr aseiniad enghreifftiol?
- Cyflawni tasgau – a oes tystiolaeth i'r tasgau gael eu cwblhau o dan yr amodau dan reolaeth a bennwyd yn yr aseiniad enghreifftiol?
- Bandiau perfformiad – a yw'r dystiolaeth yn ategu barn yr aseswr am ddysgwr yn erbyn safonau cenedlaethol?
- Anodi – a yw'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y dysgwyr wedi'i hanodi'n briodol?
- Dilysu – a yw'n glir bod y dystiolaeth a gyflwynwyd wedi'i llunio'n ddilys gan y dysgwr?
- Safoni – a oes tystiolaeth o weithdrefnau safoni/sicrhau ansawdd mewnol effeithiol yn y ganolfan?

Amserlen
Rhaid cyflwyno samplau o waith i'w safoni'n allanol, a dychwelyd y taflenni marcio cysylltiedig i CBAC erbyn 5 Mai ar gyfer cyfres mis Mehefin. Bydd angen i ganolfannau sicrhau y pennir dyddiadau cyflwyno mewnol yn ddigon cynnar er mwyn caniatáu ar gyfer dilysu, asesu a safoni.

Adborth
Canlyniad y broses safoni fydd naill ai derbyn neu ddiwygio penderfyniadau asesu canolfan. Darperir canllawiau hefyd ar y camau gweithredu y bydd angen eu cymryd cyn ailsefyll unedau penodedig fel rhan o gyfres safoni ddilynol.

Rhoddir adborth drwy gyfrwng adroddiad gan safonwr y ganolfan ar gyfer pob teitl ardystio, gan gyfeirio at yr unedau a gyflwynwyd gan y ganolfan a bydd ar gael ar wefan ddiogel CBAC. Bydd yr adroddiad yn ymdrin â'r meini prawf y cyfeiriwyd atynt uchod.

Darperir adroddiad gan Brif Safonwr ar gyfer pob cyfres.

© WJEC CBAC Cyf.

9 DYFARNU A CHYFLWYNO ADRODDIADAU

Gwneir dyfarniadau a chyflwynir adroddiadau ar ganlyniadau Cymwysterau Lefel 1/2 CBAC mewn Cynllunio a Chynnal a Chadw'r Amgylchedd Adeiledig ym mis Awst bob blwyddyn.

Bydd **Tystysgrif Cymhwyster,** a gyflwynir yn ddiweddarach, yn cadarnhau'r canlynol:

- Teitl
- Lefel
- Gradd y cymhwyster (Llwyddiant Lefel 1, Llwyddiant Lefel 2, Teilyngdod Lefel 2, Rhagoriaeth Lefel 2, Rhagoriaeth Lefel 2*)
- Teitlau'r unedau a gyfrannodd at y cymhwyster.

10 MYNEDIAD AC YSTYRIAETH ARBENNIG

Yn aml, fel rhan o gymwysterau ar y lefel hon, caiff amrywiaeth eang o gymwyseddau eu hasesu. Mae hyn yn digwydd gan mai cymwysterau cyffredinol ydynt ac, fel y cyfryw, maent yn paratoi ymgeiswyr ar gyfer amrywiaeth eang o alwedigaethau a chyrsiau lefel uwch.

Cynlluniwyd y fanyleb hon er mwyn cynnig mynediad teg i bawb ac er mwyn lleihau'r angen i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr â gofynion penodol. Fe'i hadolygwyd er mwyn nodi p'un a yw unrhyw rai o'r cymwyseddau sy'n ofynnol gan y pwnc yn arwain at rwystr posibl i unrhyw un o'r naw nodwedd warchodedig y mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn berthnasol iddynt. Ni nodwyd unrhyw achos o hynny.

Disgwylir i ganolfannau ddarparu'n briodol ar gyfer galluoedd, diddordebau ac anghenion dysgwyr fel mater o drefn drwy'r canlynol:

(a) y dewis o unedau a chymwysterau sydd ar gael,
(b) y potensial i bersonoli asesiadau dan reolaeth.

Os bydd unrhyw ymholiadau ynghylch defnyddio'r hyblygrwydd hwn sy'n rhan gynhenid o'r fanyleb er mwyn diwallu anghenion dysgwyr, neu ynghylch defnyddio addasiadau rhesymol, dylai canolfannau gysylltu â CBAC.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr anabl er mwyn eu galluogi i ymgymryd â'r asesiadau e.e. caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio Dehonglydd Iaith Arwyddion, gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain neu Iaith Arwyddion Iwerddon. Am y rheswm hwn, prin iawn fydd yr ymgeiswyr a gaiff eu hatal yn llwyr rhag cymryd rhan yn unrhyw ran o'r asesiad. Ceir gwybodaeth am addasiadau rhesymol yn nogfen y Cydgyngor Cymwysterau *Regulations and Guidance Relating to Candidates who are eligible for Adjustments in Examinations.* Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cydgyngor Cymwysterau (www.jcq.org.uk).

© WJEC CBAC Cyf.

11 GWASANAETHAU AR ÔL Y CANLYNIADAU

Os bydd canolfan yn awyddus i herio canlyniad y broses safoni a/neu arholi, rhaid i bennaeth y ganolfan wneud hynny'n ffurfiol drwy hysbysu CBAC o fewn 21 diwrnod i gyhoeddi'r canlyniadau.

Caiff y sampl o waith a gyflwynir i'w chymedroli ei hadolygu gan safonwr/arholwr nad oedd yn rhan o'r broses wreiddiol, a chaiff y ganolfan ei hysbysu o'r canlyniad.

Os na fydd y ganolfan yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad, gellir cyflwyno apêl i CBAC.

12 CODAU DOSBARTHU

Pennir cod dosbarthu cenedlaethol ar gyfer pob manyleb yn dynodi pa faes pwnc y mae'n gysylltiedig ag ef. Y cod dosbarthu ar gyfer y fanyleb hon yw EE31. Dylai canolfannau fod yn ymwybodol mai dim ond un radd (yr uchaf) fydd yn cyfrif at ddiben y Tablau Perfformiad Ysgolion a Cholegau yn achos ymgeiswyr sy'n cofrestru ar gyfer mwy nag un cymhwyster â'r un cod dosbarthu.

Mae'n bosibl y bydd canolfannau am roi gwybod i ymgeiswyr, os byddant yn astudio dwy fanyleb gyda'r un cod dosbarthu, y bydd ysgolion a cholegau yn debygol iawn o ystyried mai dim ond un o'r ddau gymhwyster a gyflawnwyd ganddynt. Gall yr un peth fod yn berthnasol os bydd ymgeiswyr yn astudio dwy fanyleb â gwahanol godau dosbarthu ond lle mae cynnwys y ddwy fanyleb yn gorgyffwrdd yn sylweddol. Os bydd gan ymgeiswyr unrhyw amheuon am eu cyfuniadau pwnc, dylent drafod hynny gyda'r sefydliad y maent yn dymuno mynd iddo cyn dechrau ar eu rhaglenni.

© WJEC CBAC Cyf.

13 Y CWRICWLWM EHANGACH

Cyfleoedd i ddefnyddio technoleg
Disgwylir i'r dysgwyr wneud defnydd effeithiol o TGCh mewn ffyrdd sy'n briodol i'r cymwysterau hyn. Bydd cyfleoedd yn codi yn ystod gweithgareddau arferol yn yr ystafell ddosbarth fel a ganlyn:

- Defnyddio offer trydanol i ymgymryd â thasgau cynnal a chadw
- Defnyddio'r Rhyngrwyd fel ffynhonnell tystiolaeth eilaidd
- Defnyddio taenlenni i ddadansoddi canlyniadau gwaith ymchwil sylfaenol
- Defnyddio meddalwedd aml-gyfrwng i gyflwyno gwybodaeth.

Materion Ysbrydol, Moesol, Moesegol, Cymdeithasol a Diwylliannol
Er mwyn datblygu deilliannau y gellir eu cymhwyso at unigolion, cymdeithasau a busnesau, mae angen i ddysgwyr ystyried safbwyntiau eraill, gan gynnwys cyflogwyr, cyflogeion, cymunedau a chwsmeriaid, ar ffurfiau ysgrifenedig ac ar lafar wedi'u cyflwyno mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Caiff y dysgwyr gyfleoedd i feithrin sgiliau beirniadol a dadansoddol wrth iddynt astudio safbwyntiau cymunedau am amgylcheddau adeiledig cynaliadwy a'r ffyrdd y mae cymunedau wedi datblygu eu hamgylcheddau adeiledig er mwyn ychwanegu buddiannau ariannol a chymdeithasol. Cânt hefyd gyfleoedd i fyfyrio ar yr hyn y byddant yn ei ddarllen, eu profiad ehangach eu hunain, a phrofiad eraill, ar ffurf ysgrifenedig ac ar ffurf llafar. Fel rhan o drafodaethau a gwaith ysgrifennu yn yr ystafell ddosbarth, bydd yn ofynnol iddynt fyfyrio ar amrywiaeth o faterion ysbrydol, moesol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol wrth drafod ystyriaethau cynllunio sy'n gysylltiedig â phrosiectau ar gyfer yr amgylchedd adeiledig.

Dinasyddiaeth
Mae cymwysiadau a goblygiadau cynllunio a chynnal a chadw'r amgylchedd adeiledig mewn cymdeithas, sy'n rhan annatod o'r fanyleb hon, yn annog unigolion i ddatblygu agwedd gyfrifol at ddinasyddiaeth. Caiff dealltwriaeth bod gan unigolion gyfrifoldeb ar y cyd ei meithrin mewn perthynas â'r amrywiol faterion moesegol a gynhwysir yn y manylebau.

Rhydd y fanyleb gyfleoedd i'r dysgwyr feithrin sgiliau darllen a gwrando beirniadol a dadansoddol. Rhydd gyfleoedd iddynt hefyd fynegi a datblygu eu safbwyntiau wrth ysgrifennu a siarad, gan eu hannog ar yr un pryd i ystyried safbwyntiau eraill mewn ffordd feirniadol ac adeiladol. Mae'r gallu hwn i lunio barn hyddysg ac ystyrlon yn sgil sy'n hanfodol wrth ddatblygu dinasyddiaeth unigol. Mae'r fanyleb hon hefyd yn sail ar gyfer datblygu amrywiaeth o sgiliau sy'n hollbwysig i unigolion yn y byd ehangach.

Materion Amgylcheddol
Mae'r fanyleb hon yn cynnig cyfleoedd helaeth i'r ymgeiswyr ddarllen am faterion amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chynllunio amgylcheddau adeiledig, eu cynnal a'u cadw a'u cynaliadwyedd a'r prosesau a'r adnoddau cysylltiedig, ysgrifennu amdanynt a'u trafod. P'un a fyddant yn ystyried amgylcheddau lleol, cymunedau neu gynaliadwyedd, ceir cyfleoedd i feithrin ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol a phynciau dadleuol.

Ystyriaethau Iechyd a Diogelwch

Dylai athrawon ac ymgeiswyr bob amser fod yn ymwybodol o faterion Iechyd a Diogelwch sy'n deillio o waith yn y ganolfan a'r tu allan i'r ganolfan. Rhaid cynnal asesiadau risg ar gyfer unrhyw waith ymarferol p'un a gaiff ei wneud mewn gweithdy neu ystafell TG. Mae'r manylebau yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr feithrin sgiliau ac ymwybyddiaeth berthnasol o ran materion Iechyd a Diogelwch, yn arbennig fel y maent yn berthnasol i gynllunio a chynnal a chadw'r amgylchedd adeiledig.

Y Dimensiwn Ewropeaidd

Mae'r dull a ddefnyddiwyd i lunio'r fanyleb yn addas ar gyfer creu cysylltiadau â meysydd astudio eraill. Gellir ei ddefnyddio hefyd i ddangos y dimensiwn Ewropeaidd ac mae'n gofyn i ddysgwyr ystyried y materion sy'n deillio o wahanol safbwyntiau.

© WJEC CBAC Cyf.

Atodiad 1 Mapio Sgiliau

Sgiliau Personol, Dysgu a Meddwl (PLTS)

PLTS	***Uned 1***	***Uned 2***	***Uned 3***
Ymholwyr annibynnol	✓	✓	✓
Meddylwyr creadigol	✓	✓	✓
Dysgwyr myfyriol	✓	✓	✓
Gweithwyr tîm	✓	✓	✓
Hunan reolwyr	✓	✓	✓
Cyfranogwyr effeithiol	✓	✓	✓

SGILIAU ALLWEDDOL A SGILIAU HANFODOL (CYMRU)
Cymhwyso Rhif

	Uned 1	***Uned 2***	***Uned 3***
Deall data rhifol	✓	✓	
Gwneud cyfrifiadau	✓	✓	
Dehongli canlyniadau a chyflwyno canfyddiadau	✓	✓	

Cyfathrebu

	Uned 1	***Uned 2***	***Uned 3***
Siarad a gwrando	✓	✓	✓
Darllen	✓	✓	✓
Ysgrifennu	✓	✓	✓

TGCh

	Uned 1	***Uned 2***	***Uned 3***
Defnyddio systemau TGCh	✓	✓	✓
Dod o hyd i wybodaeth, dethol a chyfnewid gwybodaeth, gan ddefnyddio TGCh	✓	✓	✓
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth, gan ddefnyddio TGCh	✓	✓	✓

Gwella Dysgu a Pherfformiad Unigol

	Uned 1	***Uned 2***	***Uned 3***
Pennu targedau gan ddefnyddio gwybodaeth gan bobl briodol a chynllunio sut i'w cyrraedd	✓	✓	✓
Cymryd cyfrifoldeb am eich dysgu, gan ddefnyddio eich cynllun i helpu i gyrraedd targedau a gwella eich perfformiad	✓	✓	✓
Adolygu cynnydd a chyflwyno tystiolaeth o'ch cyflawniadau	✓	✓	✓

Datrys Problemau

	Uned 1	***Uned 2***	***Uned 3***
Ystyried problem a nodi ffyrdd o'i datrys	✓	✓	✓
Cynllunio a gweithredu o leiaf un ffordd o ddatrys y broblem	✓	✓	✓
Cadarnhau p'un a ddatryswyd y broblem ac adolygu eich dull o ddatrys problemau	✓	✓	✓

Gweithio gydag Eraill

	Uned 1	***Uned 2***	***Uned 3***
Cynllunio gwaith gydag eraill	✓		✓
Ceisio datblygu cydweithrediad a chadarnhau eich cynnydd tuag at yr amcanion y cytunwyd arnynt gennych	✓	✓	✓
Adolygu gwaith gydag eraill a chytuno ar ffyrdd o wella gwaith a wneir ar y cyd yn y dyfodol	✓	✓	✓

© WJEC CBAC Cyf.

Atodiad 2 Mapio i Gynnwys y Cwricwlwm o ran Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig[1]

	Cynaliadwyedd i gymunedau	**Rheol'r amgylchedd adeiledig**	**Cynnal a chadw'r amgylchedd adeiledig**
Thema: Gwerthfawrogi a defnyddio'r amgylchedd adeiledig			
2.15 Nodi ac ystyried elfennau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd cynaliadwyedd a'u buddiannau			
2.16 Nodi a disgrifio'r cyfraniad a wna'r amgylchedd adeiledig i les corfforol, ysbrydol ac emosiynol ac i ffyniant economaidd unigolion a chymunedau			
2.17 Disgrifio'r prif weithgareddau a rolau sy'n gysylltiedig â swyddogaethau chynnal a chadw a chymorth i wasanaethau			
2.18 Egluro cyfraniad gwasanaethau rheoli a chefnogi cyfleusterau i'r broses o gynnal a chadw a datblygu'r amgylchedd adeiledig a'r budd economaidd sy'n gysylltiedig â hynny			
2.19 Nodi ac ystyried cyfraniad gwasanaethau eiddo a thai i'r broses o ddatblygu'r amgylchedd adeiledig a'r gymuned ehangach			

[1] Tynnwyd cynnwys y Cwricwlwm Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig o'r ddogfen 'Construction and the Built Environment: How University Technical Colleges can deliver best practice'. Cyhoeddwyd gan The Baker Dearing Trust ac fe'i cefnogwyd gan Golegau Technegol y Prifysgolion, Sgiliau Adeiladu CITB a Sefydliad The Edge.

Atodiad 3 Rhestr termau

A 3.1 Deilliannau dysgu gwybodaeth

Caiff deilliannau dysgu gwybodaeth eu hasesu i bob diben wrth i ddysgwr gyflwyno 'ffeithiau' sefyllfa.

Gwahaniaethwyr
Yn aml, nodir gwahaniaethwyr mewn perfformiad gan ddefnyddio'r termau canlynol:

Cywirdeb
A yw'r hyn y maent yn ei honni fel ffaith mewn gwirionedd yn gywir?

Ehangder/amrediad
A oes disgwyliad o ehangder yn hytrach na dyfnder h.y. dylent feddu ar wybodaeth arwynebol am lawer o ffeithiau yn hytrach na gwybodaeth fanwl am nifer fach o ffeithiau.

Eglurder
Mae hyn yn aml yn gysylltiedig â sgiliau cyfathrebu, ond gallech ddisgwyl y bydd rhywun sydd wir yn gwybod rhywbeth yn gwybod sut i drefnu'r hyn y mae'n ei ddweud ac yn osgoi cymysgu gwybodaeth â datganiadau anghywir neu amherthnasol. Mae pobl sy'n gwag-siarad yn dueddol o fod yn llai sicr o'u gwybodaeth na'r rheini a all fod yn gryno ac yn bendant.

Dyfnder/manylion
A ydynt wedi rhoi digon o fanylion i gadarnhau eu bod mewn gwirionedd yn gwybod rhywbeth?

Perthnasedd /cymhwysiad
A oes yn rhaid i'r ffeithiau fod yn berthnasol i'r sefyllfa? Ai damcaniaeth bur ydyw neu a ydych yn awyddus iddynt ddangos gwybodaeth drwy ddiystyru'r hyn nad yw'n berthnasol yn eu barn hwy.

Berfau Gorchymyn
Gall ystyried y berfau gorchymyn a ddefnyddir yn y maen prawf asesu helpu i benderfynu pa wahaniaethwyr y gellid eu defnyddio. Isod ceir diffiniadau o ferfau gorchymyn sy'n gysylltiedig â gwybodaeth.

Disgrifiwch – creu darlun mewn geiriau, rhoi gwybodaeth gan ddefnyddio manylion. Gan ddefnyddio'r gyfatebiaeth hon, byddech yn disgwyl rhywfaint o fanylder yn yr hyn a wyddant. Gellid ehangu disgrifio i deilyngdod a/neu ragoriaeth, ond gallai hefyd fod yn berthnasol i lwyddiant yn unig. Os caiff ei ehangu i rhagoriaeth, fwy na thebyg y bydd angen nifer o amodau.

Diffiniwch – datgan ystyr term. Mae'n annhebygol y gellid ehangu hyn i lefel teilyngdod neu ragoriaeth.

Nodwch – cydnabod, gwahaniaethu a sefydlu beth yw rhywbeth. Mae'n annhebygol y gellid ehangu hyn i lefel rhagoriaeth. Mae'n debygol y bydd gwahaniaethu yn ymwneud â pherthnasedd a chywirdeb.

Dangoswch – rhoi esiamplau, disgrifio gan gyfeirio at enghreifftiau. Gellid ehangu hyn i lefel teilyngdod a rhagoriaeth.

Amlinellwch – cynllun neu ddisgrifiad cyffredinol, rhagarweiniol neu fras o rywbeth sy'n canolbwyntio ar y prif nodweddion ac yn anwybyddu'r manylion e.e. rhestr o'r prif bwyntiau a drafodwyd neu sydd i'w trafod mewn araith. Mae hyn yn annhebygol o gael ei ehangu i lefel teilyngdod a rhagoriaeth. Daw amlinelliad da yn ddisgrifiad!

Datganwch – gwneud haeriad. Ni fyddai hyn yn ehangu y tu hwnt i lwyddiant.

Crynhowch – rhoi fersiwn byrrach o rywbeth a ddywedwyd neu a ysgrifennwyd, gan ddatgan y prif bwyntiau.

© WJEC CBAC Cyf.

A 3.2 Deilliannau dysgu deall

Caiff deilliannau dysgu deall eu hasesu i bob diben wrth i'r dysgwyr ddangos sut y maent wedi cymhwyso eu gwybodaeth drwy resymu effeithiol.

Gwahaniaethwyr

Eglurder
A yw'r rhesymu yn amlwg neu'n ymhlyg? Lle ceir rhesymu ymhlyg, rhaid dehongli lefel y ddealltwriaeth. Mae rhesymu amlwg yn dangos yn eglur bod y ddealltwriaeth yn bodoli.

Dyfnder
Pa mor fanwl yw'r rhesymu?

Cyfiawnhad
A yw eu dadl a'u rhesymu wedi eich darbwyllo?

Cadarnhad
A yw'r dysgwr wedi defnyddio tystiolaeth i ategu unrhyw gasgliadau y daethpwyd iddynt?

Dilysrwydd
A yw'r rhesymu yn ddilys? A yw'n gywir? A yw'n seiliedig ar gyd-destun y sefyllfa? A yw'n seiliedig ar ddamcaniaeth?

Berfau Gorchymyn
Isod ceir diffiniadau o ferfau gorchymyn sy'n gysylltiedig â deall.

Dadansoddwch – archwilio'n fanwl, dadelfennu, archwilio cydberthnasau.

Aseswch – llunio barn am ansawdd neu werth rhywbeth

Cymharwch – esbonio nodweddion tebyg a nodweddion gwahanol

Gwerthuswch – llunio barn yn erbyn meini prawf, yn seiliedig fel arfer ar ddadansoddiadau a data

Eglurwch – rhoi rhesymau

Cyfiawnhewch – darbwyllo rhywun o ddilysrwydd dadl, er mwyn dilysu cynnig

A 3.3 Deilliannau dysgu gallu

Mae deilliannau dysgu 'gallu' yn canolbwyntio ar y broses o feithrin sgiliau dysgwyr. Maent yn cynnwys gweithgareddau ymarferol, uniongyrchol. Caiff meini prawf asesu cysylltiedig yn aml eu hasesu drwy lunio tystiolaeth ddarfodedig, megis tystiolaeth gan dystion a chofnodion arsylwi.

Gwahaniaethwyr

Cywirdeb
A wnaethant lwyddo i gael gafael ar wybodaeth gywir drwy ddefnyddio'r sgiliau?

Addasu
A allant ddefnyddio'r sgil mewn cyd-destunau gwahanol?

Priodol
A ddefnyddiwyd y sgil yn briodol, gan ystyried y sefyllfa/lleoliad?

Hyder
Anodd iawn ei asesu gan mai teimlad cynhenid ydyw felly bydd yn anodd i'r aseswyr wneud penderfyniad. Fodd bynnag, fe'i defnyddir weithiau. Dylech ystyried petrusrwydd fel arwydd o ddiffyg hyder, felly gall rhwyddineb a chysondeb fod yn agweddau ar hyder.

Effeithiolrwydd
A wnaeth defnyddio'r sgil arwain at y deilliannau disgwyliedig?

Annibyniaeth
A lwyddodd y dysgwyr i arddangos y sgil heb gymorth nac arweiniad gan eraill?

Berfau Gorchymyn

Isod ceir diffiniadau o ferfau gorchymyn sy'n gysylltiedig â 'gallu'.

Cydweithredwch – gwneud cyfraniad at waith tîm, helpu aelodau'r tîm fel y bo angen

Cyfathrebwch – sicrhau y caiff gwybodaeth ei derbyn yn effeithiol

Arddangoswch – trefnu a chyflwyno gwybodaeth ar ffurf diagramau

Triniwch – defnyddio adnodd/cyfarpar er mwyn sicrhau'r effaith ddymunol

Monitrwch – arsylwi a chofnodi gweithgareddau, gallai hefyd gynnwys sicrhau y cynhelir y cynnydd disgwyliedig

Cynhaliwch – cadw mewn cyflwr priodol

Cynlluniwch – trefnu amrywiaeth o gydrannau yn ddilyniant rhesymegol. Gallai hyn gynnwys amseriadau. Gallai hefyd gynnwys sut y cyflwynir y trefniant hwn.

Cyflwynwch – trefnu a chyfathrebu mewn ffordd y gellir ei dilyn a'i deall yn glir. Yn aml yn cyfeirio at sgiliau cyfathrebu llafar a gall gynnwys defnyddio gwybodaeth ategol.

Proseswch – defnyddio cyfres o gamau gweithredu i sicrhau canlyniadau

Cofnodwch – cael a storio data a gwybodaeth

Defnyddiwch – defnyddio rhywbeth at ddiben

© WJEC CBAC Cyf.